



# Rhaglen Gyflawn

Gwasanaeth Democratiaeth  
Swyddfa'r Cyngor  
CAERNARFON  
Gwynedd  
LL55 1SH

Cyfarfod

**PWYLLGOR IAITH**

Dyddiad ac Amser

**10.00 y.b., DYDD LLUN, 10FED HYDREF, 2022**

Lleoliad

**Cyfarfod Rhithiol**

Pwynt Cyswllt

**Rhodri Jones**

**01286 679256**

**Rhodrijones1@gwynedd.llyw.cymru**

(Dosbarthwyd, 03 Hydref 2022)

## **PWYLLGOR IAITH**

### **AELODAETH (15)**

#### **Plaid Cymru (10)**

Y Cynghorwyr

Menna Baines  
Olaf Cai Larsen  
Llio Elenid Owen  
Elfed Williams  
Sedd Wag – Plaid Cymru

Elfed Wyn ap Elwyn  
Jina Gwyrfai  
Gwynfor Owen  
Meryl Roberts  
Sasha Williams

#### **Annibynnol (5)**

Y Cynghorwyr

Richard Glyn Roberts  
Eirwyn Williams  
Sedd Wag - Annibynnol

Peter Thomas  
Gruffydd Williams

#### **Aelodau Ex-officio**

Cadeirydd ac Is-Gadeirydd y Cyngor

#### **Aelod arall a wahoddir**

Y Cyngorydd Menna Jones, Aelod Cabinet Cefnogaeth Gorfforaethol– Y Gymraeg

# R H A G L E N

## 1. YMDDIHEURIADAU

I dderbyn unrhyw ymddiheuriadau am absenoldeb.

## 2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

I dderbyn unrhyw ddatganiad o fuddiant personol.

## 3. MATERION BRYD

Nodi unrhyw eitemau sy'n fater brys ym marn y cadeirydd fel y gellir eu hystyried.

## 4. COFNODION

4 - 12

Bydd y Cadeirydd yn cynnig y dylid llofnodi cofnodion cyfarfod o'r pwyllgor hwn a gynhaliwyd 20.06.2022 fel rhai cywir.

## 5. LLYWODRAETH CYMRU: LLYTHYR GAN WEINIDOG Y GYMRAEG AC ADDYSG

13 - 16

Eitem er gwybodaeth yn unig. Mae'r ddogfen hon wedi ei chyfieithu gan y Cyngor.

## 6. CYNLLUN HYBU'R GYMRAEG: ADRAN AMGYLCHEDD

17 - 23

Cyflwyno gwybodaeth am gyfraniad yr adran i'r Polisi Iaith.

## 7. CYNLLUN HYBU'R GYMRAEG: ADRAN PRIFFYRDD A BWRDEISTREFOL

24 - 29

Cyflwyno gwybodaeth am gyfraniad yr adran i'r Polisi Iaith.

## 8. CYNLLUN HYBU'R GYMRAEG: ADRAN CYLLID

30 - 37

Cyflwyno gwybodaeth am gyfraniad yr adran i'r Polisi Iaith.

## 9. DIWEDDARIAD PROSIECT BLAENORIAETH DYNODIADAU IAITH

38 - 41

I roi diweddariad ar y prosiect i'r Aelodau.

## PWYLLGOR IAITH: DYDD LLUN, 20 MEHEFIN 2022

### YN BRESENNOL:

**Y Cynghorwyr:** Eirwyn Williams, Elfed Wyn ap Elwyn, Gruffydd Williams, Jina Gwyrfai, Llio Elenid Owen, Menna Baines, Meryl Roberts, Olaf Cai Larsen, Richard Glyn Roberts, Sasha Williams

**Swyddogion:** Vera Jones (Rheolwr Gwasanaeth Democratiaeth ac Iaith), Llywela Owain (Uwch Ymgynghorydd Iaith a Chraffu), Gwenllian Mair Williams (Ymgynghorydd Iaith), Llio Mai Dafydd (Swyddog Dysgu a Datblygu'r Iaith Gymraeg). Sioned Mai Jones (Swyddog Gwasanaethau Democratiaeth) a Rhodri Marc Jones (Swyddog Gwasanaethau Democratiaeth).

### ERAILL A WAHODDWDYD:

Cynghorydd Elwyn Jones (Cadeirydd y Cyngor), Richard Medwyn Hughes (Is-Gadeirydd y Cyngor) a Menna Jones (Aelod Cabinet Cefnogaeth Corfforaethol)

Eitem 8: Alun Gwilym Williams (Uwch Reolwr Busnes Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant)

Eitem 9: Marian Parry Hughes (Pennaeth Adran Plant a Chefnogi Teuluoedd)

### 1. ETHOL CADEIRYDD

Ethol Y Cynghorydd Elfed Wyn ap Elwyn fel Cadeirydd ar gyfer y flwyddyn 2022/23.

### 2. ETHOL IS-GADEIRYDD

Ethol Y Cynghorydd Llio Elenid Owen fel Is-Gadeirydd ar gyfer y flwyddyn 2022/23.

### 3. YMDDIHEURIADAU

Derbyniwyd ymddiheuriad gan Y Cynghorwyr Alan Jones Evans, Gwynfor Owen a Menna Jones (aelod Cabinet Cefnogaeth Corfforaethol).

### 4. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau o fuddiant personol.

### 5. MATERION BRYD

Ni dderbyniwyd unrhyw fater bryd.

### 6. COFNODION

Llofnododd y Cadeirydd gofnodion y cyfarfod blaenorol o'r pwyllgor hwn a gynhaliwyd ar 7 Ebrill 2022 fel rhai cywir.

### 7. ADRODDIAD BLYNYDDOL AR WEITHREDIAD SAFONAU'R GYMRAEG

Cyflwynwyd yr adroddiad gan yr Ymgynghorydd Iaith, a thynnwyd sylw yn fras at y prif bwyntiau canlynol:

- Eglurodd yr Ymgynghorydd Iaith fod yr adroddiad yma wedi cael ei greu yn sgil Adran 44 Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011, sydd yn ei wneud yn ofynnol i'r Cyngor yn dilyn terfyn y flwyddyn ariannol ddiwethaf, cyn 30 Mehefin 2022.
- Nodwyd hefyd mai ei bwrpas oedd crynhoi ac egluro sut mae'r Cyngor yn gweithredu a chydymffurfio â'r safonau iaith.
- Mynegwyd balchder fod ffigyrau'r adroddiad yn dangos fod 99.1% o weithlu'r Cyngor yn meddu â sgiliau Cymraeg. Mae'r ffigwr hwn yn cynnwys unrhyw berson sydd ag unrhyw fath o sgiliau ieithyddol Cymraeg - bod yn rhugl, yn rhannol rugl neu dim ond yn deall ychydig ar yr iaith.
- Datganwyd fod 91% o holl staff y Cyngor yn cyrraedd dynodiad iaith eu swydd. Mae'r gallu i weithio drwy gyfrwng y Gymraeg yn bwysig iawn i'r Cyngor, ac roedd yr Ymgynghorydd Iaith yn falch fod y ffigwr yma yn un uchel. Er hyn, derbyniwyd fod modd cynyddu'r ffigwr hwn. Un ffordd o geisio gwneud hyn yn bresennol ydi drwy gynnig hyfforddiant ar yr iaith Gymraeg i'r staff hynny sydd ddim yn cyrraedd eu gofynion ieithyddol eto, er mwyn eu helpu i ddatblygu'r sgiliau.
- Soniwyd fod 909 o swyddi wedi cael eu hysbysebu ar wefan y Cyngor yn y flwyddyn ariannol ddiwethaf a oedd yn nodi fod sgiliau'r Gymraeg yn hanfodol ar gyfer y rôl.
- Eglurwyd fod nifer o ddatblygiadau wedi cael eu cwblhau dros y flwyddyn er mwyn sicrhau fod gwasanaethau dwyieithog yn gallu cael ei gynnig yn effeithiol:
  - o Mae'r tимоedd Cyfieithu a Gwasanaethau Democrataidd wedi bod yn brysur dros y flwyddyn yn datblygu cyfleusterau er mwyn gallu cynnal cyfarfodydd aml-leoliad. Mae arbrofi wedi cael ei gwblhau er mwyn sicrhau fod cyfarfodydd yn gallu cael eu cynnal gyda phobl yn mynychu yn y siambrau a rhai pobl yn mynychu yn rhithiol a hynny gan sicrhau fod gwasanaeth cyfieithu ar y pryd yn gallu parhau yn ddi-rwystr.
  - o Mae treialon wedi cael eu cynnal gydag adrannau'r Cyngor ar gyfer system hunanasesu newydd. Mae'r system yma yn gofyn iddyn nhw gwblhau hunanasesiad er mwyn gweld i ba raddau maen nhw yn cydymffurfio â safonau'r iaith. Mae hyn yn galluogi i'r adran Cefnogaeth Gorfforaethol wneud Hunanasesiad Corfforaethol o gydymffurfiaeth y Cyngor a'r safonau iaith ar gyfer ei gyflwyno i'r Comisiynydd Iaith.

Rhodddwyd cyfle i'r aelodau'r pwyllgor holi cwestiynau:

- Holwyd os oes modd edrych ar ganran o niferoedd staff y Cyngor sydd yn cyrraedd lefel dynodiad iaith eu swydd dros dreigl amser, er mwyn gallu ei gymharu gyda'r blynyddoedd diwethaf.
- Gofynnwyd a oedd modd cysylltu gydag asiantaethau a chyrrff eraill sydd yn cydweithio â'r Cyngor pan fydd methiannau ieithyddol yn digwydd ar eu rhan. Holwyd hefyd os oes modd gwneud hyn ar lefel uchel er mwyn sicrhau fod safonau ieithyddol ein partneriaid yn ddigonol.

- Mynegwyd barn fod tystiolaeth anecdotaidd yn awgrymu bod safon sgiliau iaith yn cynyddu wrth i raddfeydd cyflog gynyddu ac felly yn gallu creu hollt cymdeithasol. Cyfeiriwyd yn benodol at wahaniaeth sgiliau rhwng gwahanol swyddi mewn lleoliadau fel ysgolion. .
- Teimlwyd y dylai'r gallu i ddefnyddio'r Gymraeg yn y gweithle fod yn hanfodol ar gyfer pob swydd oherwydd mewn rhai sefyllfaoedd mae'r iaith gyfathrebu yn newid o'r Gymraeg i'r Saesneg yn naturiol os oes un (neu fwy) o'r staff yn ddi-gymraeg.

Mewn ymateb i'r pwyntiau uchod, nododd yr Ymgynghorydd iaith

- Nad oes modd cymharu niferoedd staff sydd yn cyrraedd dynodiad iaith eu swydd ar hyn o bryd oherwydd nad ydi'r data wedi cael eu casglu yn yr un dull dros y blynyddoedd diwethaf yn sgil y pandemig. Er hyn, fe fyddai'n ddiddorol iawn gallu cymharu'r ffigyrau hyn o flwyddyn i flwyddyn a gallu gweld os ydi'r ffigwr yn mynd yn uwch neu'n is. Mae'r Ymgynghorydd iaith yn ffyddiog bydd modd gwneud hyn o'r adroddiad nesaf ymlaen oherwydd erbyn hynny bydd y data wedi cael ei gasglu yn yr un dull am ddwy flynedd yn olynol. Mae'r Ymgynghorydd iaith hefyd yn ffyddiog y bydd y ffigwr perthnasol o 91% yn cynyddu eleni wrth i fwy o staff y Cyngor gwblhau hunanasesiad iaith ac wrth i fwy o staff fynychu hyfforddiant ieithyddol.
- Bod materion o fethiannau ieithyddol gan ein partneriaid ac asiantaethau eraill yn cael eu codi gan staff y Cyngor. Yn ddibynnol o amgylchiadau'r methiant ieithyddol, bydd swyddogion yn ei grybwyll mewn cyfarfodydd gyda'r bobl berthnasol neu yn cysylltu yn uniongyrchol a'r asiantaeth/partner. Mae cynnwys methiannau o'r fath mewn adroddiad fel yr un hwn yn tynnu sylw'r Comisiynydd iaith a fydd wedyn yn rhoi pwysau ar yr asiantaeth i wella eu safonau iaith. Nodwyd fod modd rhoi protocol yn ei le er mwyn sefydlu proses o gysylltu gyda phartneriaid yn effeithiol pe bai methiant ieithyddol yn digwydd
- Bod rhywfaint o wirionedd yn y ffaith bod sgiliau ieithyddol staff yn cynyddu wrth i lefelau cyflog gynyddu, yn enwedig sgiliau ysgrifenedig a darllen a deall. Gellir esbonio hynny i ryw raddau gan anghenion y swyddi – hynny yw byddai angen sgiliau ieithyddol uwch ar lefel rheolwr oherwydd yr angen i gyflwyno adroddiadau i bwyllgorau ac ati. Gan nad oes yr un angen efo swyddi ar lefelau is, mae'n debyg bod sgiliau ieithyddol yr unigolion yn is yn gyffredinol. Ond tynnodd yr Ymgynghorydd iaith sylw hefyd at y ffaith bod cynnig cyfleoedd hyfforddiant cynhwysfawr yn rhan allweddol i'r prosiect dynodiadau iaith.
- Bod pob swydd sydd yn cael ei hysbysebu ar wefan y Cyngor yn nodi fod sgiliau Cymraeg yn hanfodol (nid yn ddymunol). Dim un swydd yn cael ei hysbysebu gyda gofynion iaith dymunol. Yr hyn sydd yn amrywio ydi'r lefel benodol o sgiliau sydd yn cael ei dynodi ar gyfer y swydd. Cyfeiriodd yr Ymgynghorydd iaith hefyd at yr heriau sydd yn wynebu'r Cyngor o ran recriwtio. Hefyd, nodwyd bod disgwyliad clir bod unrhyw weithiwr sydd yn cael eu penodi ond nad ydynt yn cyrraedd gofyn iaith eu swyddi yn dilyn hyfforddiant ac yn gweithio i gyrraedd y lefelau ieithyddol hynny dros amser.

## **PENDERFYNWYD**

- Derbyn yr adroddiad gan nodi'r sylwadau a dderbyniwyd a cymeradwyo'r adroddiad i gael ei gyhoeddi erbyn y terfyn amser, 30 Mehefin 2022.

## 8. POLISI IAITH A GWEITHAREDDAU HYBU'R GYMRAEG: ADRAN OEDOLION, IECHYD A LLESIANT

Cyflwynwyd yr adroddiad gan yr Uwch Reolwr Busnes yr adran, a thynnwyd sylw yn fras at y prif bwyntiau canlynol:

- Eglurwyd fod yr adran yn dilyn Fframwaith Strategol Olydol o'r enw 'Mwy na Geiriau' sydd yn gosod gofynion ar yr adran i sicrhau fod gofal ar gael i drigolion y Sir drwy gyfrwng y Gymraeg heb iddyn nhw orfod gwneud cais amdano.
- Adroddwyd mai un o heriau mwyaf yr adran yn ddiweddar yw recriwtio staff o'r newydd. Mae hyn yn broblem genedlaethol, ac o fewn y sir mae rhai ardaloedd yn fwy anos nag eraill i recriwtio staff. Yn ogystal â hyn, mae rhai swyddi penodol, megis Therapyddion Galwedigaethol yn anodd eu llenwi gan fod angen sgiliau arbenigol yn ogystal â sgiliau Cymraeg.
- Manylwyd ar faes arbenigol iawn mae'r adran yn ymwneud ag o sef y cyflwr Dementia. Mae ymchwiliadau bellach yn dweud ei fod yn hollbwysig i gleifion dderbyn gofal yn yr iaith maent yn teimlo mwyaf cyfforddus yn ei ddefnyddio, gan fod hyn yn gwella eu llesiant. Yn dilyn hyn mae'r adran yn gweithio i ddatblygu unedau Dementia mewn tai gofal, staff cefnogol arbenigol y cyflwr a thechnoleg newydd i gefnogi pobl sydd eisiau aros yn eu cartref eu hunain.

Rhodddwyd cyfle i'r aelodau'r pwyllgor holi cwestiynau:

- Gofynnwyd a oes modd sicrhau fod gofal drwy gyfrwng y Gymraeg ar gael i bobl sydd yn dioddef o gyflwr Dementia o fewn y sector preifat.
- Holiwyd a oedd yr adran wedi gorfod ystyried hysbysebu am swyddi ble nad oedd y Gymraeg yn hanfodol er mwyn denu ymgeiswyr sydd yn meddu â'r sgiliau arbenigol perthnasol.
- Holiwyd a oes yna broses gan yr adran i geisio paru cleifion gyda gofalwyr sydd yn gallu darparu gofal yn unol â dewis iaith y claf, yn enwedig o gofio nad ydy pob claf angen gofal drwy gyfrwng y Gymraeg
- Gofynnwyd a oes yna fwriad i gynnig gofal drwy gyfrwng y Gymraeg y tu hwnt i Wynedd ar hyn o bryd, ac os ydi'r gyllideb ar gael er mwyn gallu darparu gofal yn effeithiol.

Mewn ymateb, nododd yr Uwch Reolwr Busnes:

Bod sicrhau gofal trwy'r Gymraeg i gleifion o fewn y sector breifat yn heriol iawn gan fod gan bob claf yr hawl i ddewis ble maent yn derbyn eu gofal. Dyma'r rheswm pam fod yr adran mor awyddus i'r Cyngor gynnig a darparu gofal drwy'r Gymraeg.

- Cadarnhawyd bod pob ymdrech yn cael ei wneud i baru cleifion gyda gofalwyr sydd gyda sgiliau ieithyddol addas. Gall hyn fod yn heriol ar brydiau, yn enwedig pan fo claf angen gofal brys.
- Mynegwyd bwriad i ddatblygu'r cyfleoedd all-sirol o dderbyn gofal drwy gyfrwng y Gymraeg. Nodwyd fod y cyfleon hyn yn gyfyngedig ar hyn o bryd ond mae Gwynedd yn arwain y ffordd i annog siroedd eraill drwy'r fforwm 'mwy na geiriau'.

- Eglurwyd bod bwriad i drïo denu gweithwyr proffesiynol e.e. Gweithwyr Cymdeithasol a Therapyddion sydd wedi symud i ffwrdd o'r ardal yn nôl i Wynedd i fyw ac i weithio er mwyn cryfhau y ddarpariaeth yng Ngwynedd.

## **PENDERFYNWYD**

- Derbyn yr adroddiad gan nodi sylwadau a dderbyniwyd.

## **9. POLISI IAITH A GWEITHGAREDDAU HYBU'R GYMRAEG: ADRAN PLANT A CHEFNOGI TEULUOEDD**

Cyflwynwyd yr adroddiad gan Bennaeth yr adran, a thynnwyd sylw yn fras at y prif bwyntiau canlynol:

- Eglurwyd fod yr adran yma, yn debyg i'r Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant yn dilyn Fframwaith Strategol Olymol 'Mwy na Geiriau'.
- Mae'r Gwasanaeth Blynyddoedd Cynnar yn cydweithio yn agos gyda CWLWM, sef 5 sefydliad arweiniol cenedlaethol gofal plant, er mwyn hyrwyddo'r Gymraeg ar draws lleoliadau gofal plant o fewn y Sir. Mae hyn yn aml iawn yn arwain at brosiectau newydd sydd yn cael eu hybu gan y 5 sefydliad megis podlediad newydd gan y Mudiad Meithrin gyda chymorth Nia Parry o'r enw 'Baby Steps Into Welsh' sydd yn helpu plant a rhieni i ddysgu'r iaith. Mae'r Gwasanaeth Blynyddoedd Cynnar hefyd yn elwa o gydweithio gyda CWLWM gan fod Cynllun Croesi'r Bont gan y Mudiad Meithrin yn pontio dosbarthiadau meithrin yn ieithyddol, ac mae 11 cylch o fewn y sir yn derbyn cefnogaeth o'r fath.
- Adroddwyd fod yr adran hefyd yn hybu'r Gymraeg yn annibynnol mewn sawl ffordd. Mae grantiau o £100 yn cael ei gynnig i warchodwyr plant preifat di-gymraeg er mwyn prynu adnoddau Cymraeg perthnasol. Yn ogystal â hyn, mae sawl tîm o fewn yr adran yn defnyddio cwrs rhiantu 'FRIENDS' ac wedi llwyddo i gyfieithu'r cwrs i'r Gymraeg ar gyfer rhieni'r Sir.
- Nodwyd fod dim modd cael lleoliad gofal plant addas o fewn y sir ar gyfer pob plentyn, yn aml am resymau diogelwch. Os na fydd lleoliad cyfrwng Cymraeg ar gael i'r plentyn, bydd yr adran a'r Gweithwyr Cymdeithasol yn parhau i ymweld a chysylltu â'r plant yn yr iaith Gymraeg er mwyn helpu eu datblygiad ieithyddol.
- Esboniwyd fod yr adran yn arwain 55 o ddarparwyr Addysg Feithrin ar hyn o bryd sydd yn derbyn cefnogaeth gan Athrawes Blynyddoedd Cynnar i gynorthwyo gydag addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg. Ymfalchiwyd yng Nghynllun Dechrau'n Deg, sydd yn gwasanaethu mewn rhannau difreintiedig o fewn y Sir, ac yn darparu addysg cyfrwng Cymraeg i blant 2 oed. Mae 12 lleoliad gofal plant Dechrau'n Deg o fewn y Sir ar hyn o bryd.
- Amlygwyd fod gwaith yn cael ei gwblhau i hybu'r Gymraeg ar gyfer plant hŷn hefyd megis creu a datblygu Ap Gwobr Dug Caeredin ar gyfer plant ysgol uwchradd.
- Cadarnhawyd fod hybu'r Gymraeg wedi cael lle blaenllaw gan yr adran yn ystod y flwyddyn ddiwethaf. Bu un aelod o staff, Stephen Wood, yn llwyddiannus yng Ngwobrau Coffa Dafydd Orwig eleni am ei lwyddiant wrth ddysgu'r Gymraeg. Yn ogystal â defnyddio'r iaith ar lafar o fewn yr adran, mae llawr o adnoddau ysgrifenedig a fideos wedi cael eu datblygu er mwyn hyfforddi staff ar amryw o nodweddion pwysig



yr adran. Hefyd, mae'r adran yn y broses o droslaisio adnoddau ar gyfer defnydd rhanbarthol a chenedlaethol er mwyn darparu gwasanaeth dwyieithog effeithiol.

- Trafodwyd gwaith effeithiol y Gwasanaeth Ieuenctid, a nodwyd fod sawl cynllun megis garddio, coginio a gweithdai graffiti, bellach ar gael drwy gyfrwng y Gymraeg a bod adborth y plant 16-25 oed oedd wedi cymryd rhan mewn gweithdai, ar y cyd gyda chynllun 'FRIENDS' yn dweud eu bod wedi mwynhau'r ffaith eu bod wedi gallu cymryd rhan yn y Gymraeg gan eu bod yn teimlo ei fod yn fuddiol i'w datblygiad personol.
- Diweddarwyd y pwyllgor ar Fframwaith Gweithgareddau a Chwarae i blant, pobl ifanc a theuluoedd. Bellach mae 24 o ddarparwyr gweithgareddau yn gallu gwneud hynny drwy gyfrwng y Gymraeg. Ymhellach i hyn, roedd dros 50 o sefydliadau wedi dod ynghyd i gyflwyno gweithgareddau llesiant o fewn wythnos llesiant a gynhaliwyd yn ddiweddar. Defnyddiwyd y dechnoleg ddiweddaraf drwy blatfform 'Haia' er mwyn cynnal yr holl ddigwyddiadau yn Hybrid a drwy gyfrwng y Gymraeg. Yn dilyn y llwyddiant yma, mae Ap newydd yn cael ei ddatblygu - 'Ai Di' er mwyn helpu i gysylltu plant a gofawyr. Bydd modd ei ddefnyddio i gysylltu ag ysgolion yn ogystal â defnydd cymunedol.
- Sicrhawyd yr aelodau fod gofynion ieithyddol yn cael eu cynnwys ym mhob cytundeb trydydd parti pan fo'n addas a bod y broses yma yn cael ei fonitro yn rheolaidd rhwng Rheolwr Gwasanaeth a Rheolwr ar ran y darparwr.

Mynegwyd pryder am broblemau recriwtio a welwyd yn ddiweddar, yn debyg i rai adrannau eraill y cyngor. Nodiwyd ei fod yn her i recriwtio pobl sydd yn meddu a sgiliau arbenigol cymwysedig yn ogystal â sgiliau Cymraeg addas ar adegau. Mae'r adran yn edrych ar ffyrdd o oresgyn y problemau yn ogystal â darparu cefnogaeth i aelodau staff sy'n dymuno datblygu eu sgiliau ieithyddol Cymraeg.

- Ychwanegwyd fod heriau yn wynebu'r adran wrth gyd-weithio gyda'r partneriaid oherwydd nad ydi'r cyfleusterau ar gael o hyd er mwyn gallu cyfathrebu yn Gymraeg yn effeithiol. Eglurwyd nad ydi pawb yn cynnig darpariaeth cyfieithu ar y pryd.

Rhoddyd cyfle i'r aelodau'r pwyllgor holi cwestiynau:

- Mynegwyd balchder yng ngwasanaeth cyfieithu Cyngor Gwynedd a thrafodwyd yr angen am brotocol i fynnu fod y Gymraeg yn cael ei ddefnyddio wrth gydweithio gyda phartneriaid ac i'w hysbysu os yw eu gwasanaethau Cymraeg yn annigonol.
- Gwnaed sylw fod cyfleusterau yn cael eu gwastraffu os nad ydi pobl yn eu defnyddio. Atgoffwyd pawb o'r angen i ddefnyddio'r iaith Gymraeg os ydynt yn gallu er mwyn ei chynnal a helpu eraill i ddysgu.
- Clodforwyd gwaith yr adran i ddatblygu sawl ap defnyddiol newydd ar gyfer pobl o bob oed. Holiwyd os oes modd monitro'r defnydd o'r ap-iau i weld faint o ddefnydd Cymraeg a geir ohonynt.

Mewn ymateb, nododd yr Uwch Ymgynghorydd Iaith a Chraffu:

- Bod modd atgoffa staff o'r polisi iaith cyfredol a beth yw eu cyfrifoldebau ynghylch hysbysu partneriaid am fethiannau ieithyddol. Ymhelaethwyd fod modd creu protocol newydd fel trafodwyd yn gynharach er mwyn i staff adael i swyddogion yr adran wybod fod methiant ieithyddol wedi digwydd er mwyn gallu cysylltu â'r partneriaid, y Comisiynydd Iaith a'r Llywodraeth pe bai angen.

Mewn ymateb, nododd yr Ymgynghorydd Iaith:

- Gan fod y mater yma wedi codi amryw o weithiau yn ystod y cyfarfod fod modd ystyried ychwanegu protocol fel addasiad i'r polisi iaith newydd, a hynny cyn ei gyflwyno i aelodau'r cabinet, os bydd y pwyllgor yn cytuno i wneud hynny. Mynegwyd ei fod yn rhywbeth cadarnhaol bod gan swyddogion gyfrifoldeb i hysbysu ac ymateb i unrhyw fethiant ieithyddol oherwydd bod ganddyn nhw gyswllt uniongyrchol a'r partner a bod hynny yn atgyfnerthu'r polisi iaith.

Mewn ymateb, nododd Pennaeth Adran Plant a Chefnogi Teuluoedd:

- Bod angen sicrhau fod partneriaid ac asiantaethau eraill yn rhanbarthol a chenedlaethol yn gwella eu safonau ieithyddol oherwydd bod y defnydd o'r Gymraeg yn eilradd mewn sawl cyfarfod. Cytunwyd fod angen defnyddio ein dull o weithredu'r Gymraeg fel enghraifft i asiantaethau eraill.
- Ymatebwyd nad oes modd i fonitro'r defnydd o'r Gymraeg mewn amryw o'r ap-iau a ddatblygwyd hyd yma gan eu bod yn ymdrin â gwybodaeth bersonol unigolion. Er hyn, gobeithiwyd gallu monitro faint o'r Gymraeg a ddefnyddir ar yr Ap Gwobr Dug Caeredin.

## **PENDERFYNWYD**

- Derbyn yr adroddiad gan nodi sylwadau a dderbyniwyd.

## **10. POLISI IAITH**

Cyflwynwyd yr adroddiad gan yr Ymgynghorydd Iaith, a thynnwyd sylw yn fras at y prif bwyntiau canlynol:

- Dechreuwyd drwy egluro bod yr adran wedi dechrau edrych i mewn i adolygiadau posibl i'r polisi iaith yn 2020, yn dilyn newidiadau mawr i'r modd roedd y Cyngor yn gweithredu wrth ddarparu gwasanaethau i'r cyhoedd.
- Eglurwyd bod yr angen wedi codi i ddarparu arweiniad clir i staff am bynciau penodol megis sut mae'r Gymraeg yn cael ei ddefnyddio drwy systemau TG y Cyngor.
- Manylwyd ar y diwygiadau arfaethedig i'r polisi megis:
  - o Egwyddorion cyffredinol ar ddechrau pob adran
  - o Newidiadau sylweddol i Adran 5 (Gwasanaethau digidol – gwefan, ap-iau a hunanwasanaeth) i egluro'r defnydd o'r Gymraeg mewn gwahanol systemau technolegol.
  - o Ychwanegu cymal newydd i Adran 6 (Arwyddion) er mwyn adlewyrchu ymrwymiad y cyngor i brosiect enwau lleoedd ac hyrwyddo enau Cymraeg o enwau lleoedd.
  - o Newidiadau sylweddol i Adran 12 (hysbysebu swyddi a'r broses recriwtio).
  - o Cael sicrwydd o bwy sydd yn atebol i'r polisi yn ogystal â chyfrifoldebau Aelodau Etholedig ac Aelodau'r Pwyllgor Iaith o dan Adran 15 (Atebolrwydd).

Rhoddwyd cyfle i'r aelodau'r pwyllgor holi cwestiynau:

- Gofynnwyd a ystyriwyd cynnwys geiriad addas mewn amryw o adrannau'r polisi i sicrhau fod y Cyngor yn gwarchod canran siaradwyr Cymraeg mewn cymunedau, yn ogystal â chynnal gwasanaethau Cymraeg ar gyfer y siaradwyr.

- Gofynnwyd a ystyriwyd yr angen i holi un cwestiwn mewn cyfarfodydd recriwtio'r Cyngor drwy gyfrwng Saesneg.
- Holwyd a oedd angen cynnwys rhywbeth a oedd yn nodi'r angen am sgiliau iaith Cymraeg i isgcontractwyr sydd yn cyd-weithio gyda'r Cyngor ar amrywiol brosiectau.
- Tynnwyd sylw bod aelodau etholedig yn cael eu rhwymo gan y Cod Ymddygiad ac felly bod angen ystyried a ydi'r polisi iaith yn cydnabod hyn.
- Cwestiynwyd os oedd unrhyw oblygiadau i aelodau o staff sydd angen derbyn hyfforddiant i gyrraedd dynodiad iaith eu swydd ond wedi methu mynychu'r sesiynau hyfforddiant hynny.
- Gofynnwyd a'i dyma'r tro olaf i gynnig newidiadau ar y polisi iaith.

Mewn ymateb, nododd yr Ymgynghorydd Iaith:

- Bod modd ystyried y pwynt am warchod canran o siaradwyr Cymraeg o fewn cymunedau.  
  
Ystyrir safonau iaith is-gontractwyr sydd yn cydweithio â'r cyngor mewn adran arbennig o'r polisi iaith, ond y gellir ail-edrych ar eiriad yr adran er mwyn sicrhau fod hyn yn cael ei amlygu.
- Cadarnhawyd nad oes goblygiadau os ydi staff yn methu mynychu hyfforddiant iaith Gymraeg i gyrraedd eu dynodiad iaith. Er hyn, mae unigolion sydd ddim yn cyrraedd eu dynodiad iaith yn cael eu monitro yn gyson er mwyn gweld pa fath o hyfforddiant sydd o fudd iddynt er mwyn iddynt lwyddo i feithrin sgiliau ieithyddol Cymraeg.

Mewn ymateb, nododd y Rheolwr Gwasanaeth Democratiaeth ac Iaith:

- Bydd yr awgrymiadau am newidiadau yn cael eu ystyried cyn cyflwyno'r drafft polisi iaith i'r Cabinet. Bydd newidiadau gan penaethiaid adran hefyd yn cael eu ystyried. Os bydd y Cabinet yn cymeradwyo'r drafft, yna bydd yn mynd o flaen y Cyngor Llawn ble bydd cyfle i gynnig unrhyw welliannau.

## **PENDERFYNWYD**

- Derbyn yr adroddiad ddrafft gan nodi'r sylwadau a dderbyniwyd a chymeradwyo symud ymlaen i gyflwyno'r Polisi – gydag addasiadau priodol – i Gabinet y Cyngor fel y cam nesaf i'w gymeradwyo'n swyddogol.

Dechreuodd y Cyfarfod am 10:00yb a gorffennodd am 12:15yp.

---

**CADEIRYDD**



**Jeremy Miles AS/MS**  
**Gweinidog y Gymraeg ac Addysg**  
**Minister for Education and Welsh Language**



Llywodraeth Cymru  
Welsh Government

Ein cyf JMEWL/00982/22

Mr Dafydd Gibbard  
Prif Weithredwr  
Cyngor Gwynedd

[anwenmairjones@gwynedd.llyw.cymru](mailto:anwenmairjones@gwynedd.llyw.cymru)

13 Mehefin 2022

Annwyl Mr Gibbard,

Diolch am eich llythyr dyddiedig 3 Mai 2022 ynghylch cyfieithu ar y pryd.

Mae gan Lywodraeth Cymru gynlluniau cadarn nid yn unig i gynyddu'r nifer o siaradwyr Cymraeg, ond hefyd i ddyblu defnydd y Gymraeg gan ei siaradwyr, fel y nodir yn strategaeth y Gymraeg, *Cymraeg 2050: miliwn o siaradwyr*. Mae dyletswydd arnom o dan Safonau'r Gymraeg i ofyn am ddewis iaith mynychwyr i gyfarfodydd a drefnir gan Lywodraeth Cymru. Byddwn yn darparu adnodd cyfieithu i'r rheiny nad ydynt yn gallu siarad Cymraeg os ydy cyfradd o fynychwyr y cyfarfod sydd yn siaradwyr Cymraeg wedi ymateb eu bod yn awyddus i ddefnyddio'r iaith yn y cyfarfod.

Mae'n bwysig ein bod yn defnyddio adnodd cyhoeddus prin yn y ffordd fwyaf darbodus ymhob maes ac mae sut rydym yn blaenoriaethau cyfieithu ar y pryd wedi'i gytuno gyda Chomisiynydd y Gymraeg. Mae'r trefniant hwn yn ein galluogi i wneud y defnydd gorau posibl o'r adnodd hynny, a'i ddefnyddio mewn modd sy'n golygu ei fod yn cael y mwyaf o effaith o ran defnydd y Gymraeg.

Wrth drefnu cyfarfodydd mae'n staff yn cael eu hannog i ddefnyddio crebwyll, ac mae mynychwyr o sefydliadau sydd yn gweithredu drwy gyfrwng y Gymraeg yn un o'r ystyriaethau hynny, ynghyd â thestun y cyfarfod a'i leoliad.

Fe soniwch yn benodol am gyfarfodydd yn ymwneud â phandemig y coronafeirws a sefyllfa Wcraïn yn eich llythyr. Mae eithriadau gan gyrff eraill rhag gweithredu rhai o ddyletswyddau Safonau'r Gymraeg wrth ymateb i argyfyngau (yn rhinwedd eu categoraidd fel ymatebwyr categori 1 yn y Ddeddf Argyfyngau Sifil 2004). Nid yw'r eithriadau yma yn berthnasol i lywodraethau canolog ond o ystyried ein profiad dros y ddwy flynedd ddiwethaf byddwn yn trafod priodoldeb y sefyllfa hwn i gorff sydd wedi arwain yn genedlaethol ar ein hymateb i'r argyfyngau yma.

Cyn bo hir hefyd, mi fydd canlyniad ein partneriaeth ddiweddaraf gyda Microsoft ym myd technoleg iaith yn gweld golau dydd. Mi fydd ein cydweithredu'n golygu bod cyfleuster

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:  
0300 0604400


Bae Caerdydd • Cardiff Bay  
Caerdydd • Cardiff  
CF99 1SN

[Gohebiaeth.Jeremy.Miles@llyw.cymru](mailto:Gohebiaeth.Jeremy.Miles@llyw.cymru)  
[Correspondence.Jeremy.Miles@gov.wales](mailto:Correspondence.Jeremy.Miles@gov.wales)

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

cyfieithu ar y pryd ar gael a fydd yn galluogi hyd yn oed fwy ohonom i ddefnyddio'n hiaith mewn cyfarfodydd Teams. Bydd hynny ar gael fel rhan o drwydded Teams arferol heb unrhyw gost ychwanegol ac yn gallu cael ei ddefnyddio ar gyfer ieithoedd eraill hefyd. Dyma achos o Gymru a'r Gymraeg yn arwain datblygiad a fydd yn cynyddu'r defnydd o ieithoedd ledled y byd.

Yn gywir,

A handwritten signature in black ink, consisting of a stylized 'J' followed by a series of wavy lines and a short horizontal stroke at the end.

**Jeremy Miles AS**

Gweinidog y Gymraeg ac Addysg



Ein cyf JMEWL/00982/22

Mr Dafydd Gibbard  
Chief Executive Gwynedd Council  
[anwenmairjones@gwynedd.gov.wale](mailto:anwenmairjones@gwynedd.gov.wale)

S

This document has been translated  
by Gwynedd Council.

13 June 2022

Dear Mr Gibbard,

Thank you for your letter of 3 May 2022 regarding simultaneous translation.

The Welsh Government has firm plans not only to increase the number of Welshspeakers, but also to double the use of Welsh by its speakers, as set out in the Welsh language strategy, *Cymraeg 2050: miliwn o siaradwyr*. We have a duty under the Welsh Language Standards to ask about the preferred language of those attending meetings organised by the Welsh Government. We will provide a translation resource for those unable to speak Welsh if a proportion of meeting attendees who are Welshspeakers have responded that they are keen to use the language at the meeting.

It is important that we use limited public resources in the most economical way in all areas and how we prioritise simultaneous translation has been agreed with the Welsh Language Commissioner. This arrangement allows us to make the best possible use of that resource, and use it in a way which means it gets the most impact on Welsh language usage.

When organising meetings our staff are encouraged to use their judgement, and attendees from organisations who operate through the medium of Welsh is one of those considerations, as well as the context of the meeting and its location.


You specifically mentioned meetings relating to the coronavirus pandemic and the situation in Ukraine in your letter. Other bodies are exempt from implementing some of the duties of the Welsh Language Standards when responding to emergencies (by virtue of categorising them as category 1 respondents in the Civil Emergencies Act 2004). These exceptions do not apply to central governments but given our experience over the past two years we will discuss the appropriateness of this position for a body which has led nationally on our response to these emergencies.

The result of our latest partnership with Microsoft in relation to language technology will soon see the light of day. Our collaboration will mean that a

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

simultaneous translation facility is available which will enable even more of us to use our language in Teams meetings. That will be available as part of an ordinary Teams licence at no additional cost and can be used for other languages as well. This is a case of Wales and the Welsh language leading a development that will increase the use of languages around the world.

Yours sincerely,

A handwritten signature in black ink, consisting of a large 'J' followed by a series of wavy lines and a short horizontal stroke at the end.

**Jeremy Miles MP**

Minister for Welsh Language and Education



# Eitem 6

DYDDIAD	PWYLLGOR IAITH
CYFARFOD	10 HYDREF 2022
TEITL	Adroddiad Adran Amgylchedd
PWRPAS	Cyflwyno gwybodaeth am gyfraniad yr Adran i'r Polisi Iaith
AWDUR	Dafydd Wyn Williams, Pennaeth Adran Amgylchedd

## 1. CEFNDIR

- 1.1. Mae'r adroddiad hwn wedi ei baratoi er mwyn cyflwyno gwybodaeth i'r Pwyllgor Iaith am gyfraniad yr Adran Amgylchedd i'r Polisi Iaith.
- 1.2. Mae Polisi Iaith y Cyngor wedi ei wreiddio yn holl waith yr Adran. Byddwn yn amlygu yn yr adroddiad hwn y cyfleoedd sydd ar gael i wella'r ddarpariaeth i'n trigolion gan gydnabod hefyd yr heriau sy'n wynebu'r maes.
- 1.3. Yn dilyn gwaith diweddar i adnabod dynodiadau iaith holl swyddi'r Adran, gellir adrodd fod 91.7% o staff yr Adran yn cyrraedd dynodiadau iaith eu swyddi, sydd ychydig yn uwch na chyfartaledd y Cyngor (91.3%). Mae'r ffigyrau yma yn seiliedig ar asesiadau amrywiol yn cynnwys asesiad rheolwr linell a hunanasesiadau staff. Hyd at 31/8/22, mae 78.5% o staff yr Adran Amgylchedd wedi cwblhau hunanasesiad, ac mae anogaeth i staff gwblhau er mwyn cael darlun llawn o sgiliau iaith ein staff.
- 1.4. Dengys y ffigyrau diweddaraf fod 154 o staff yr Adran felly'n cyrraedd y dynodiadau iaith perthnasol, a 14 ar hyn o bryd nad ydynt yn cyrraedd y gofynion. Er hyn, nid yw'r ffaith nad yw unigolion yn gallu cyrraedd y gofynion iaith y swydd yn golygu nad ydynt yn gallu siarad Cymraeg ac yn gallu cynnig gwasanaeth Cymraeg i'r cwsmer. Mae'r cyfleoedd hyfforddiant eang sydd ar gael gan y Cyngor yn cael eu hyrwyddo ymhlith staff yr Adran. Mae enghreifftiau positif o unigolion o fewn yr Adran Amgylchedd sy'n datblygu a gwella eu sgiliau iaith ac mae anogaeth barhaus i staff fynychu'r cyrsiau sydd ar gael er mwyn datblygu eu sgiliau a hyder yn y Gymraeg.
- 1.5. Fel y bydd Aelodau yn ymwybodol, mae cyfrifoldeb am faes Gwastraff ac Ailgylchu wedi trosglwyddo i'r Adran Amgylchedd ers dechrau'r mis. Byddwn yn parhau gyda'r gwaith sydd wedi ei gynnal gan yr Adran Priffyrdd a Bwrdeistrefol i sicrhau fod rhagor o staff y maes Gwastraff ac Ailgylchu yn cwblhau asesiadau dynodiadau iaith. Ond bydd rhagor am gyfraniad y maes Gwastraff ac Ailgylchu at y Polisi Iaith yn cael ei amlinellu fel rhan o Adroddiad yr Adran Priffyrdd a Bwrdeistrefol.

## 2. YMATEB I GWESTIYNAU'R PWYLLGOR

Tud. 18

Mater yr hoffai'r aelodau ei drafod:	Cwestiwn
<p><u>Hybu a hyrwyddo</u></p> <p>Sut ydym ni'n mynd y tu hwnt i ddarparu yn ddwyieithog i fod yn cynyddu'r cyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg yn y gymuned, i gyfrannu at y targed cenedlaethol o greu Miliwn o siaradwyr, ac at y nod Llesiant o sicrhau bod pobl Gwynedd yn "Cael byw mewn cymdeithas naturiol Gymraeg"?</p> <p>Mae Cynllun Hybu'r Gymraeg yng Ngwynedd i'w weld yma: <a href="https://www.gwynedd.llyw.cymru/cy/Cyn-gor/Dogfennau-Cyngor/Strategaethau-a-pholisiau/Cynllun-iaith/Cynllun-Hybu'r-Gymraeg-yng-Ngwynedd-2018-2023.pdf">https://www.gwynedd.llyw.cymru/cy/Cyn-gor/Dogfennau-Cyngor/Strategaethau-a-pholisiau/Cynllun-iaith/Cynllun-Hybu'r-Gymraeg-yng-Ngwynedd-2018-2023.pdf</a></p> <p>Mae'n gosod blaenoriaethau ar gyfer hybu'r Gymraeg mewn pum maes:</p> <ol style="list-style-type: none"> <li>1. Iaith y teulu,</li> <li>2. Iaith dysgu,</li> <li>3. Iaith gwaith a gwasanaeth,</li> <li>4. Iaith y gymuned</li> <li>5. Ymchwil a Thechnoleg</li> </ol>	<p><b>1. Allwch chi amlygu unrhyw brosiectau o fewn eich adran sydd yn cyfrannu tuag at un o flaenoriaethau strategaeth iaith y Cyngor, sef Cynllun Hybu'r Gymraeg yng Ngwynedd?</b></p> <p><b>Gwasanaeth Rheolaeth Adeiladu:</b> Mae gan y Gwasanaeth gyfrifoldeb am reoli enwi strydoedd ac enwi a rhifo eiddo o dan ddarpariaeth y Ddeddf Iechyd Cyhoeddus 1925. Mae gan y Cyngor ddyletswydd statudol i sicrhau fod unrhyw enw newydd neu ddiwygiad i enwau strydoedd ac eiddo, a / neu rifau yn cael eu dyrannu'n rhesymegol ac mewn modd cyson.</p> <p>Yr hyn sy'n ofynnol ei ystyried yn ôl y ddeddfwriaeth, ydi a fydd enw tŷ yr un fath ag enw tŷ arall er enghraifft, neu os ydi'r enw yn briodol (e.e. yn weddus). Nid oes pwerau gorfodi ynghlwm, ac nid yw'r gyfraith yn ein galluogi i wrthod cais oni bai fod yna ddyblygu o ran enw neu nad ydi'r enw yn briodol.</p> <p>Er hyn, mae polisi a weithredir gan y Gwasanaeth Rheolaeth Adeiladu yn golygu ein bod yn cymryd ymagwedd ragweithiol i amlygu arwyddocâd hanesyddol a diwylliannol enwau Cymraeg. Mae swyddogion yn annog yn ffurfiol ac ar lafar i ymgeiswyr sydd yn dymuno newid enw o'r Saesneg i'r Gymraeg i ail-ystyried. Mae'r Gwasanaeth Rheolaeth Adeiladu yn cyfrannu tuag at brosiect corfforaethol i Warchod Enwau Lleodedd.</p> <p>Mae ystadegau o 2021/22 yn dangos y bu 67 o geisiadau i newid enwau eiddo gyda 100% o'r enwau a gofrestrwyd drwy'r Post Brenhinol wedi hynny yn enwau Cymraeg. Nodir nad oedd unrhyw enghreifftiau lle gwnaeth ymgeiswyr gais i newid o enw Cymraeg i Saesneg. Mae'n galonogol iawn, o'r 67 cais, fod 26 o berchnogion eiddo wedi newid o enwau Saesneg yn ôl i enwau Cymraeg gyda llawer yn gwerthfawrogi'r enwi hanesyddol gwreiddiol (eraill yn newid o un enw Cymraeg i un arall neu'n gosod enw ar eiddo am y tro cyntaf).</p> <p><b>Gwasanaeth Polisi Cynllunio ar y Cyd:</b> Prif waith y Gwasanaeth yma ydi paratoi, monitro, adolygu, diwygio'r Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd (2011-26) gan gynnwys paratoi Canllawiau Cynllunio Atodol.</p>

Mae rôl cynllunio'n gyfyngedig i geisio creu'r amgylchiadau gorau posib drwy Bolisiau'r Cynllun er mwyn hwyluso datblygiadau cynaliadwy. Mae ystyriaeth o'r iaith Gymraeg wedi bod yn ganolog i'r broses o baratoi'r Cynllun ac mae'r Cynllun yn ymgorffori polisi cynllunio penodol sef Polisi PS1 sy'n ymwneud yn benodol â'r iaith Gymraeg a diwylliant Cymreig.

Yn ychwanegol i hyn, mae Canllaw Cynllunio Atodol (Cynnal a chreu cymunedau nodedig a chynaliadwy), yn cynnwys arweiniad manwl ar sut i roi ystyriaeth i'r iaith Gymraeg wrth ddelio gyda cheisiadau am ddatblygiadau newydd.

Trwy'r gwaith yma, mae'r Cynllun yn cyfrannu tuag at hyrwyddo a chefnogi'r iaith Gymraeg yn ardal Awdurdod Cynllunio Gwynedd. Bydd Gwasanaeth Cynllunio Gwynedd yn parhau i flaenoriaethu'r maes allweddol yma wrth baratoi Cynllun Datblygu Lleol Newydd i Wynedd.

**Gwasanaeth Cynllunio:** Un o brif ddyletswyddau'r Gwasanaeth yma ydi delio gyda cheisiadau cynllunio am bob math o ddatblygiadau gan gynnwys tai, cyflogaeth (ffatrïoedd a siopau), twristiaeth, amaethyddiaeth, mwynau a gwastraff ac ati.

Yn unol â'r gofyn statudol mae angen gwneud penderfyniadau ar geisiadau cynllunio yn unol â'r Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd. Fel y nodir uchod, mae'r Cynllun yn cynnwys polisi penodol i'r iaith Gymraeg a Chanllaw Cynllunio Atodol sy'n rhoi arweiniad manwl ar sut i weithredu'r polisi.

Drwy weithredu ar y ddyletswydd o ddelio gyda cheisiadau cynllunio, a hynny'n unol â gofynion y Cynllun, rydym yn cyfrannu tuag at hyrwyddo'r iaith Gymraeg yn yr ardal. Gwneir hyn drwy sicrhau fod ceisiadau'n rhoi ystyriaeth i'r Gymraeg yn unol â'r Polisi a'r Canllaw gan amlygu pwysigrwydd diwylliannol yr iaith, yn ogystal â drwy hyrwyddo'r iaith i fod yn weledol mewn datblygiadau (e.e. arwyddion).

Mae'r Gwasanaeth Cynllunio hefyd yn cyfrannu at brosiect corfforaethol i Warchod Enwau Lleoedd. Trwy gyfrannu at y prosiect yma, mae'r gwasanaeth wedi cynnal adolygiad o'r amodau cynllunio ac wedi cadw fersiwn yn eu systemau i sicrhau cysondeb a defnydd effeithlon o'r amodau i staff. Mae'r amodau hefyd yn cryfhau safbwynt y Gwasanaeth Rheolaeth Adeiladau wrth ddelio gyda cheisiadau am enwi tai a strydoedd newydd. Amlyga hyn bwysigrwydd cydweithio a chyfathrebu rhwng gwasanaethau'r Adran yn ogystal â gydag Adrannau amrywiol o fewn y Cyngor.

**Traffig a Phrosiectau:** Mae Hyfforddai Proffesiynol Cynllunio a Pheirianeg Trafnidiaeth wedi cychwyn gyda'r Gwasanaeth yn ddiweddar. Bydd yr unigolyn yn dysgu am y meysydd pwysig yma o fewn yr

	<p>Adran Amgylchedd trwy gyfrwng y Gymraeg. Maent hefyd fel rhan o'i hyfforddiant yn cydweithio a dysgu ochr-yn-ochr gyda swyddogion profiadol a hynny mewn awyrgylch gwaith naturiol Gymraeg.</p> <p>Mae'r Gwasanaeth hefyd yn falch o fod yn dathlu a hyrwyddo enwau Cymraeg mewn prosiectau lle bynnag fo'n bosib. Fel rhan o welliannau i lwybr cerdded a beicio Lôn Eifion rhwng Bryncir a Chaernarfon, blaenoriaethwyd enwau Cymraeg ar hyd y llwybr gyda'r bwriad o wella ymwybyddiaeth a hybu'r defnydd o'r enwau cynhennid.</p> <p><b>Diogelwch y Ffyrdd:</b> Mae swyddogion y gwasanaeth yn cydweithio gydag ysgolion gan gynnig gweithgareddau yn cynnig addysg a hyfforddiant trwy gyfrwng y Gymraeg i blant y sir.</p> <p><b>Trwyddedu:</b> Mae'r Gwasanaeth Trwyddedu yn sicrhau fod aelodau'r cyhoedd yn gallu rhoi tystiolaeth drwy'r Gymraeg mewn achosion ffurfiol a chyflwyno achosion i'w herlyn ac apeliadau drwy'r Gymraeg lle mae hynny yn bosib. Mae pob un gwrandawriad a chyfarfod o'r Prif Bwyllgor Trwyddedu a'r Is Bwyllgorau yn cael eu cynnal yn unol â'r polisi iaith - ac felly mae aelodau'r cyhoedd yn gallu cyflwyno tystiolaeth mewn gwrandawriadau drwy'r Gymraeg.</p> <p><b>Hinsawdd a Natur:</b> Mae cyfrifoldeb am arwain Cynllun Argyfwng Hinsawdd a natur y Cyngor yn cael ei gydlynu gan yr Adran Amgylchedd. Drwy gydweithio a datblygu partneriaethau gyda sefydliadau eraill, rydym yn cefnogi busnesau lleol i weithio yn y maes technoleg ynni adnewyddadwy. Mae rhai prosiectau – ee. Partneriaeth Sero Net Gwynedd sy'n cael ei arwain gan Adra – yn hyfforddi gweithlu lleol (yn enwedig pobl ifanc) er mwyn iddynt aros yn lleol i weithio i fusnesau lleol. Rydym hefyd am ehangu faint o brentisiaid a hyfforddeion y mae'r Cyngor yn eu recriwtio i weithio yn y meysydd hinsawdd a natur/bioamrywiaeth.</p> <p>Byddwn yn ymgynghori â phartneriaid allanol a chyda trigolion Gwynedd ar ddatblygu'r Cynllun Argyfwng Hinsawdd a Natur ymhellach yn 2023/24. Byddwn bob tro'n cyfathrebu yn newis iaith y person ac yn annog trafodaeth yn y Gymraeg a'r Saesneg.</p> <p><b>Cyfathrebu Mewnol:</b> Mae'r Adran yn cynhyrchu newyddlen reolaidd i staff sy'n cael ei ddosbarthu yn electroneg. Mae'r newyddlen fewnol sy'n cael ei ddarparu yn Gymraeg yn rhannu newyddion a diweddiadau am amrywiol ddatblygiadau adrannol a chorfforaethol ac yn gyfle i dynnu sylw at unrhyw gyfleoedd datblygu sgiliau Cymraeg i staff ac i ddatlu unrhyw lwyddiannau perthnasol.</p>
<p><u>Allanoli gwaith a gosod cytundebau trydydd parti</u></p>	<p><b>2. Os yw'r adran yn gosod gwaith yn allanol ar gytundeb, allwch chi gyfeirio at unrhyw arfer da, naill ai wrth osod amodau neu wrth fonitro i sicrhau cydymffurfiaeth efo amodau ieithyddol?</b></p>

<p>Sut ydym ni'n sicrhau bod safon y gwasanaeth ddwyieithog yn cael ei gynnal wrth allanoli a gosod cytundebau?</p>	<p><b>Cytundebau:</b> Ym mhob cytundeb a roddir drwy borth caffael Gwerthwchi Gymru (Sell2Wales) rydym yn parhau i ymdrechu i sicrhau bod safon y gwasanaeth Gymraeg yn cael ei sicrhau a'i chynnal. Caiff copi o'r Polisi Iaith ei gynnwys yn y dogfennau tendro, a gofynnir i bob ymgeisydd ei ddarllen er mwyn sicrhau eu bod yn deall beth yw'r gofynion ohonynt o ran y Gymraeg ond hefyd eu bod yn deall pwysigrwydd y Gymraeg i Gyngor Gwynedd. Caiff gofynion ieithyddol (sy'n adlewyrchu Polisi Iaith y Cyngor) pob contract eu pennu yn ôl anghenion y contract hwnnw.</p> <p><b>Prosiectau/contractau:</b> Mae'r diwydiant peirianeg a thueddiad i fod yn Saesneg eu natur. Er mwyn annog y defnydd o Gymraeg yn ystod y broses pwrcasu, rydym yn sicrhau fod dogfennau 'gwahoddiadau i dendr' neu 'cyfarwyddiadau i dendro' yn cael eu hysbysu'n ddwyieithog.</p> <p><b>Contractau bysiau a thacsis:</b> Fel rhan o delerau ac amodau cytundebau bysiau a thacsis, mae'n ofynnol fod y contractwr yn sicrhau cydymffurfiaeth lawn â Pholisi Iaith Gymraeg y Cyngor.</p> <p><b>Safonau Masnach:</b> Pan fydd unrhyw waith yn cael ei osod yn allanol, yn benodol gwaith arbenigol fyddai megis hurio peirianwyr i gynnal adroddiad ar gyflwr car, neu hurio cyfarpar arbenigol (sydd angen gweithredwr i weithio'r cyfarpar), byddai swyddog o'r gwasanaeth yn bresennol bob amser i sicrhau fod y cyfathrebiad/cyswllt gyda'r trydydd parti yn cael ei gynnal y neu ddewis iaith.</p> <p><b>Trwyddedu:</b> Mae Gwasanaeth Trwyddedu wedi gweld fod y gallu i gyfathrebu o ddydd-i-ddydd gyda'r Heddlu drwy'r Gymraeg wedi gwella ers penodi arolygwyr sy'n siarad Cymraeg ar lefel uchel.</p> <p><b>Hinsawdd a Natur:</b> Byddwn yn cydweithio â Llywodraeth Cymru a Busnes Cymru er mwyn dylanwadu ar y sector preifat wrth osod cytundebau caffael. Byddwn yn parhau i ofyn am eu hymrwymiad i'r Gymraeg yn ogystal â gofynion newydd iddynt adrodd ar sut y maent yn ceisio lleihau eu hallyriadau carbon.</p>
<p><u>Gweithredu'n ddwyieithog</u></p> <p>Sut ydym ni'n llwyddo wrth weithredu ar ofynion y Polisi Iaith a Safonau'r Gymraeg?</p>	<p><b>3. Oes yna unrhyw rwystrau i'ch gallu fel adran i gynnig gwasanaeth llawn yn y Gymraeg?</b>  <i>Gall hyn fod ar draws yr adran neu mewn gwasanaethau penodol.</i>  e.e.</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• <i>problemau recriwtio neu ddiffyg sgiliau staff</i></li> <li>• <i>Gweithio mewn maes sydd yn cael ei ystyried yn ddiwydiant "Saesneg" ei natur (h.y. dylanwadau allanol)</i></li> <li>• <i>Cydweithio gyda chyrrff ac asiantaethau allanol sydd ddim yn gweithredu yn ddwyieithog</i></li> </ul> <p><b>Recriwtio:</b> Mae heriau yn parhau mewn rhai meysydd arbenigol o ran cymwysterau perthnasol a'r gallu i gyfathrebu yn Gymraeg.</p>

	<p><b>Cynllunio:</b> Mae recriwtio Cynllunwyr cymwys yn parhau yn her, ac mae recriwtio Cynllunwyr cymwys sy'n siarad Cymraeg yn fwy o her. Yn amlwg, mae bod yn rhugl yn y Gymraeg o safbwynt y Gwasanaeth Cynllunio, sy'n delio yn rheolaidd gyda'r cyhoedd yn hynod o bwysig. Er yr heriau, rydym yn parhau i allu penodi swyddogion cymwys sy'n meddu ar y sgiliau ieithyddol angenrheidiol.</p> <p>Mae'r Gwasanaeth wedi bod edrych fwy ar apwyntio ymgeiswyr sydd â gradd mewn meysydd gwaith tebyg (e.e. Daearyddiaeth), ac yna hyfforddi yn y gwaith yn ogystal â thalu iddynt gael cymhwyster yn y maes Cynllunio. Mae'r dull yma o recriwtio wedi ein gallu i benodi yn llwyddiannus dros y blynyddoedd. Ond, pan fyddwn yn hysbysebu swyddi Cynllunio, mae'r niferoedd sy'n ymgeisio yn brin, ac rydym yn ffodus dros y blynyddoedd i sicrhau ymgeiswyr da. Her arall ydi gallu cadw gafael ar staff i'r hirdymor yn sgil lefel cyflogau o'i gymharu gyda'r mwyafrif o awdurdodau eraill yn y gogledd.</p> <p><b>Rheolaeth Adeiladu:</b> Mae hwn yn wasanaeth masnachol sy'n cystadlu gyda'r sector breifat am waith ac hefyd am staff. Mae cadw swyddogion presennol a recriwtio staff newydd yn heriol iawn ac mae ymdrechion wedi eu gwneud yn ddiweddar i geisio cyfarch hyn drwy adolygu strwythur staff y Gwasanaeth, yn ogystal â pharatio pecynnau recriwtio wrth hysbysebu swyddi.</p> <p><b>Peirianwyr trafndiaeth:</b> Mae'r maes arbenigol yma hefyd yn profi'n heriol o ran recriwtio, gydag esiamplau o neb o gwbl yn ymgeisio am swyddi. Mae'r Gwasanaeth erbyn hyn wedi bod yn llwyddiannus gyda recriwtio hyfforddai.</p> <p><b>Cefn Gwlad/ Bioamrywiaeth:</b> Mae recriwtio staff i'r maes yn parhau'n heriol. Ar ôl hysbysebu'n aflwyddiannus dair gwaith am Swyddog Bioamrywiaeth, bu'n rhaid gostwng gofynion iaith. Yn dilyn hynny, penodwyd ymgeisydd sy'n ddysgwr i safon "sylfaen" ac sy'n frwdfrydig i ddatblygu ei sgiliau iaith ac eisoes wedi cychwyn hyfforddiant Cymraeg.</p> <p><b>Cydweithio</b></p> <p>Mae staff yr Adran Amgylchedd yn cymryd rhan mewn cyfarfodydd amlasiantaethol, ar lefel rhanbarthol a chenedlaethol yn gyson. Mae nifer sylweddol o'r cyfarfodydd yma yn dueddol o gael eu cynnal drwy gyfrwng y Saesneg. Er hyn, byddai swyddogion yn sicrhau fod unrhyw waith ar y cyd fyddai'n cael ei baratoi ar gyfer ei rannu gyda'r cyhoedd yn ddwyieithog.</p>
<p><u>Datblygu cyfleoedd newydd</u></p>	<p><b>4. Oes gennych chi syniadau am ffyrdd newydd y gallem ni fod yn hybu'r Gymraeg o fewn cymunedau'r sir – naill ai yn eich gwasanaethau eich hun neu drwy gydweithio gydag eraill?</b></p>

	<p>Mae'r Adran Amgylchedd yn hyrwyddo a hybu defnydd o'r Gymraeg trwy waith pob un o'n Gwasanaethau ac mae unrhyw gyfathrebu gyda'r cyhoedd yn digwydd trwy ddewis iaith trigolion Gwynedd.</p> <p>Fel y nodwyd uchod, mae Hyfforddai Proffesiynol Cynllunio a Pheirianeg Trafnidiaeth wedi cychwyn gyda'r Adran yn ddiweddar. Rydym yn credu fod hyn yn Cynnig cyfle i ddatblygu gweithlu i'r dyfodol gan sicrhau fod staff yn magu profiad a'n bod yn Cynnig llwybr gyrfa i'n staff i'r dyfodol. Bydd hyn yn ei dro yn sicrhau fod gennym swyddogion proffesiynol i'r dyfodol sy'n meddu ar y sgiliau iaith mae'r Cyngor yn ei ddeisyfu.</p> <p>Mae gwaith ar y gweill i hyrwyddo tair swydd hyfforddai Newydd am gyfnod o dair blynedd ar gyfer y maes Gwarchod y Cyhoedd. Bydd un hyfforddai yn gweithio ym mhob maes Gwarchod y Cyhoedd, sef Bwyd a Diogelwch; Amgylchedd a Thrwyddedu; a Safonau Masnach. Bydd y tair swydd yn rhoi cyfleoedd i'r hyfforddeion llwyddiannus fagu sgiliau proffesiynol arbenigol trwy gyfrwng y Gymraeg.</p> <p><b>Fforwm Iaith y Cyngor:</b> Croesawu datblygiad y Fforwm Iaith fel cyfle i rannu ymarfer da ar draws adrannau'r Cyngor. Mae'n gyfle i gynrychiolwyr holl adrannau'r Cyngor i drafod syniadau am sut i godi ymwybyddiaeth am y gefnogaeth sydd ar gael a sut i annog/ysbrydoli staff i wneud y mwyaf o hynny.</p> <p>Gallai drefnu gweithgareddau gwirfoddol o fewn y Cyngor neu adrannau'r Cyngor greu cyfleoedd i staff siarad y Gymraeg gyda'i gilydd mewn awyrgylch hamddenol a fwy naturiol ei natur. Mae'n bosib gallai ddylanwadu'n bositif ar deulu/ ffrindiau/cymdogion a'u hysbrydoli i drefnu'r un math o weithgareddau ar gyfer siaradwyr newydd yn eu cymunedau.</p> <p><b>Cefnogaeth:</b> Fel Adran, rydym yn annog unrhyw aelod o staff i fynychu cyrsiau i ddysgu'r iaith neu i loywi iaith er budd trigolion Gwynedd. Byddwn yn parhau i gefnogi ac annog staff sy'n siaradwyr newydd i ddefnyddio'u Cymraeg mewn cyfarfodydd, wrth gyfarch a chyflwyno eu hunain neu bryd bynnag maent yn hyderus i gyflwyno eitem yn y Gymraeg er mwyn adeiladu hyder mewn amgylchedd diogel.</p>
--	--

# Eitem 7

<b>CYFARFOD</b>	Pwyllgor Iaith
<b>DYDDIAD</b>	10 Hydref 2022
<b>TEITL</b>	Adroddiad Adran Priffyrdd a Bwrdeistrefol
<b>PWRPAS</b>	Cyflwyno gwybodaeth am gyfraniad yr Adran i hybu a hyrwyddo'r iaith Gymraeg
<b>AWDUR</b>	Steffan Jones, Pennaeth Adran Priffyrdd a Bwrdeistrefol

## 1. CEFNDIR

- 1.1 Paratowyd yr adroddiad hwn mewn ymateb i gais y Pwyllgor Iaith am wybodaeth ynghylch sut mae'r Adran Priffyrdd a Bwrdeistrefol yn gweithredu'r Polisi Iaith.
- 1.2 Mae'r Adran yn cyflogi 570 aelod o staff gyda'r mwyafrif o'r rhain yn weithwyr llaw e.e. casglwyr sbwriel, glanhawyr stryd, gweithwyr canolfannau ailgylchu a gweithwyr ffordd. Cymraeg yw iaith gyntaf y mwyafrif ohonynt a'r cyfrwng sy'n cael ei defnyddio i gyfathrebu'n fewnol, ac yn allanol gyda'n trigolion.
- 1.3 Yn ôl yr adroddiad adrannol chwarterol diweddaraf, mae bron i 95% o staff yr Adran yn cyrraedd dynodiad iaith eu swydd. Mae hyn yn galonogol ac yn adlewyrchu dyhead yr Adran i hybu a hyrwyddo'r iaith ymhlith ein staff. Fodd bynnag, dylid tynnu sylw at y ffaith mai dim ond 39% o aelodau staff sydd wedi ymateb i'r arolwg hyd yma. Tra bod hyn yn well na chanran yr ymatebwyr yr un adeg y llynedd, mae'n parhau i fod y gyfradd ymateb isaf o holl adrannau'r Cyngor.
- 1.4 Mae gwella'r gyfradd ymateb wedi bod yn heriol. Fodd bynnag, rydym wedi gweithio'n agos gyda Swyddog Dysgu a Datblygu Iaith Gymraeg y Cyngor i ddarganfod ffyrdd i wella'r ymateb ac mae ein hymdrechion wedi cychwyn dwyn ffrwyth i raddau. Rhoddir mwy o gefndir am hyn yn y tabl cwestiynau.
- 1.5 Fe fyddwch yn ymwybodol fod yr Adran wedi cael ei hailstrwythuro yn ddiweddar. O ganlyniad, mae'r Gwasanaethau Casglu ac Ailgylchu a Thrin Gwastraff, sy'n cyflogi'r mwyafrif o'n gweithwyr llaw, wedi trosglwyddo i'r Adran Amgylchedd ers dechrau'r mis. Byddwn yn gweithio'n agos gyda'r Adran Amgylchedd i geisio cael y gweddill o aelodau staff y ddwy adran sydd heb gwblhau'r asesiadau dynodiad iaith eto i wneud hynny.



## 2. YMATEB I GWESTIYNAU'R PWYLLGOR

Tud. 25

Mater yr hoffai'r aelodau ei drafod:	Cwestiwn
<p><u>Hybu a hyrwyddo</u></p> <p>Sut ydym ni'n mynd y tu hwnt i ddarparu yn ddwyieithog i fod yn cynyddu'r cyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg yn y gymuned, i gyfrannu at y targed cenedlaethol o greu Miliwn o siaradwyr, ac at y nod Llesiant o sicrhau bod pobl Gwynedd yn "Cael byw mewn cymdeithas naturiol Gymraeg"?</p> <p>Mae Cynllun Hybu'r Gymraeg yng Ngwynedd i'w weld yma:  <a href="https://www.gwynedd.llyw.cymru/cy/Cyngor/Dogfennau-Cyngor/Strategaethau-a-pholisiau/Cynllun-iaith/Cynllun-Hybu'r-Gymraeg-yng-Ngwynedd-2018-2023.pdf">https://www.gwynedd.llyw.cymru/cy/Cyngor/Dogfennau-Cyngor/Strategaethau-a-pholisiau/Cynllun-iaith/Cynllun-Hybu'r-Gymraeg-yng-Ngwynedd-2018-2023.pdf</a></p> <p>Mae'n gosod blaenoriaethau ar gyfer hybu'r Gymraeg mewn pum maes:</p> <ol style="list-style-type: none"> <li>1. Iaith y teulu,</li> <li>2. Iaith dysgu,</li> <li>3. Iaith gwaith a gwasanaeth,</li> <li>4. Iaith y gymuned</li> <li>5. Ymchwil a Thechnoleg</li> </ol>	<p><b>1. Allwch chi amlygu unrhyw brosiectau o fewn eich adran sydd yn cyfrannu tuag at un o flaenoriaethau strategaeth iaith y Cyngor, sef Cynllun Hybu'r Gymraeg yng Ngwynedd?</b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Mae'r Adran yn codi ymwybyddiaeth trigolion Gwynedd o'i gwasanaethau mewn nifer o ffyrdd. Rydym yn sicrhau fod ein holl wybodaeth a deunydd cyhoeddusrydd yn ddwyieithog gan gynnwys unrhyw arwyddion sydd gennym ar ein safleoedd cyhoeddus e.e. y canolfannau ailgylchu.</li> <li>• Yn ogystal, rydym yn trefnu sesiynau i grwpiau a chyflwyniadau cyhoeddus e.e. mae ein swyddogion ailgylchu yn ymweld ag ysgolion, colegau â sefydliadau eraill lleol i egluro manteision ailgylchu ac i esbonio sut yr ydym yn casglu a thrin gwastraff. Mae'r mwyafrif o'r sesiynau yma'n cael eu cynnal drwy gyfrwng y Gymraeg heblaw bod y swyddogion yn ymwybodol o flaen llaw y bydd y gynulleidfa yn Saesneg neu'n rhannol Saesneg.</li> <li>• Mewn perthynas â'r iaith yn y gweithle, cynhyrchir ein holl cyfarwyddiadau mewnol, dogfennau iechyd a diogelwch ac ati yn ddwyieithog; eto, gyda'r Gymraeg yn cael blaenoriaeth dros y Saesneg.</li> <li>• Mae'r arolwg iaith wedi adnabod 14 aelod o staff sydd ddim yn cyrraedd dynodiadau iaith eu swyddi ac sydd heb ddilyn unrhyw hyfforddiant iaith hyd yma. Rydym yn y broses o gysylltu â'r unigolion yma i'w hannog i ddyysgu neu ddatblygu eu sgiliau Cymraeg trwy wahanol gyfryngau e.e. gwersi hunan-astudio, gwersi ar-lein neu gyrsiau dwys.</li> </ul>

Allanoli gwaith a gosod cytundebau trydydd parti

Sut ydym ni'n sicrhau bod safon y gwasanaeth dwyieithog yn cael ei gynnal wrth allanoli a gosod cytundebau?

**2. Os yw'r adran yn gosod gwaith yn allanol ar gytundeb, allwch chi gyfeirio at unrhyw arfer da, naill ai wrth osod amodau neu wrth fonitro i sicrhau cydymffurfiaeth efo amodau ieithyddol?**

- Rydym yn sicrhau fod ein gwasanaethau'n bodloni gofynion unrhyw bolisi a deddfwriaeth mewn perthynas â'r Iaith Gymraeg drwy :
  - Darganfod a all y contractwyr gynnig ei wasanaethau yn ddwyieithog drwy ofyn cwestiynau perthnasol yn yr holiadur cyn-gymhwyso (fel a ganlyn):

Nodyn	<i>Dim ond os gallwch gadarnhau y byddwch yn gallu cydymffurfio â'r gofyniad i ddarparu gwasanaethau'n ddwyieithog (yn Gymraeg ac yn Saesneg) lle mae hynny'n angen a nodwyd am y tendr y gall y prynwr eich dewis i dendro. Os byddwch yn llwyddiannus, efallai y bydd angen i'r prynwr ddarparu tystiolaeth i gefnogi eich ateb.</i>	
1.121.2	<i>Cadarnhewch y gallwch fodloni, neu y byddwch yn cwrdd os byddwch yn llwyddiannus, y gofyniad i ddarparu gwasanaethau'n ddwyieithog yn unol â gofynion Deddf yr Iaith Gymraeg (Cymru) 2011 a'r Safonau Iaith ddilynol a osodwyd ar y Cyngor.</i>	<i>Ie/Na * Dileu fel sy'n briodol</i>

- Mae cymal yn ein dogfennau tendr sy'n codi ymwybyddiaeth y contractwyr o'n gofynion a'n disgwyliadau iaith ohonynt (fel a ganlyn):

#### **5.11 Polisi Iaith Gymraeg Cyngor Gwynedd 2016**

*Cyhoeddir y Polisi yma yn unol â blaenoriaethau Cyngor Gwynedd a'r gofynion a osodir ar y Cyngor dan Safonau'r Gymraeg, Adran 4 Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011.*

*Diben y Polisi yw datgan sut fydd y Cyngor yn cynllunio ac yn darparu i sicrhau bod y cyfan o'i wasanaethau yn cwrdd ag angen y boblogaeth leol o safbwynt ieithyddol. Mae hefyd yn fodd o sicrhau bod cydymffurfio gyda Safonau'r Gymraeg.*

*Bydd y Cyngor yn gweithredu yn unol â'r egwyddor sylfaenol a nodir ym Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011, sef rhoi statws a dilysrwydd cyfartal i'r ddwy iaith gan beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.*

*Mae Safonau'r Gymraeg nid yn unig yn berthnasol i'r gwasanaethau a gyflenwir yn uniongyrchol gan y Cyngor, ond maent hefyd yn gymwys i wasanaethau a gyflenwir ar ran y Cyngor gan bartïon eraill. Mewn perthynas â'r gwasanaethau hynny a gyflenwir ar ran y Cyngor gan bartïon eraill bydd y Cyngor yn sicrhau:*

- a) bod unrhyw fanylebau, cytundebau, contractau neu drefniadau a wneir gyda thrydydd bartïon sy'n ymwneud â darpariaeth gwasanaethau i'r cyhoedd yn cydymffurfio gyda gofynion Polisi y Gymraeg a Safonau'r Gymraeg;*
  - b) drwy drefniadau contractio fod yr asiant neu'r contractwr yn gallu ac yn gweithredu unrhyw elfennau cymwys o Bolisi a Safonau Iaith Gymraeg y Cyngor wrth ddarparu gwasanaethau i'r cyhoedd ar ei ran neu o dan ei arolygiaeth;*
  - c) y bydd y gofynion am y defnydd o'r Gymraeg yn cael eu pennu yn y dogfennau tendro a'r contractau;*
  - d) y sefydlir gweithdrefnau priodol i fonitro bod cydymffurfio gyda Pholisi a Safonau'r Iaith Gymraeg.*
- o Rydym hefyd yn gofyn i gontractwyr llwyddiannus arwyddo cytundeb sy'n eu hymrwymo i'n gofynion mewn perthynas â'r iaith (fel a ganlyn):*

***Cymal sydd yn y Termau ac Amodau'r Cyngor***

***30. Gofynion y Gymraeg***

*Yn ddibynnol ar destun y Cytundeb, bydd y Cyngor yn gosod gofynion iaith fydd yn adlewyrchu egwyddorion Polisi Iaith Gymraeg y Cyngor, gofynion Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 a Safonau'r Gymraeg a osodwyd ar y Cyngor fel rhan o'r Mesur hwnnw.*

	<ul style="list-style-type: none"> <li>○ Mae'r tîm yn cyhoeddi'r hysbyseb am bob dyfynbris, neu dendr ar gyfer pob gwaith i gontractio, ar wefan Gaffael Genedlaethol Gwerthu i Gymru drwy gyfrwng y Gymraeg.</li> <li>○ Mae'r tîm hefyd yn anfon holl ohebiaeth angenrheidiol i'n contractwyr drwy gyfrwng y Gymraeg.</li> </ul>
<p><u>Gweithredu'n ddwyieithog</u></p> <p>Sut ydym ni'n llwyddo wrth weithredu ar ofynion y Polisi Iaith a Safonau'r Gymraeg?</p>	<p><b>3. Oes yna unrhyw rwystrau i'ch gallu fel adran i gynnig gwasanaeth llawn yn y Gymraeg?</b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Mae'r Adran yn cynnig gwasanaeth sydd bron yn gwbl Gymraeg i'n trigolion. Yr unig eithriadau mae'n debyg yw'r gwasanaethau casglu sbwriel a glanhau strydoedd, yn benodol yn rhannau o Feirionnydd, lle mae'n anodd ar adegau recriwtio staff i'r rolau hyn. Er bod gan y swyddi lefelau ieithyddol elfennol, gall fod yn heriol eu llenwi.</li> <li>• Mae'r camau a gymerwyd mewn perthynas â thendro ac ati wedi'u nodi yn 2 uchod. Fodd bynnag, mae 'na rhai tendrau na allent gael eu darparu yn y Gymraeg am y rhesymau canlynol: <ul style="list-style-type: none"> <li>○ Mae llawer o dendrau a chontractau yn dechnegol ac, o ganlyniad, ystyrir nad ydynt yn addas i'w cyfieithu.</li> <li>○ Oherwydd Rheoliadau Contractau Cyhoeddus 2015 (sydd yn disodli'r Official Journal of the European Union - OJEU), cawn ond hysbysebu contractau gwerth uchel yn y Saesneg (cynlluniau neu wasanaethu mawr dros drothwy pris penodol).</li> <li>○ Amser – mae'r tim yn derbyn ceisiadau i dendro ar fyr rybudd ac mae pwysau arnynt i gyhoeddi'r tendr o fewn amserlen dyn sy'n golygu nad oes amser i gyfieithu'r ddogfennaeth.</li> <li>○ Cost - gall y gost o gyfieithu dogfennaeth fod yn gostus. Felly, rydym yn ddibynnol ar y rheolwr sy'n gyfrifol am y gyllideb fod yn fodlon talu am y gwaith cyfieithu.</li> </ul> </li> </ul>

	<ul style="list-style-type: none"> <li>Mae ceisio canfod canran staff yr Adran sy'n cyrraedd dynodiadau iaith eu swyddi wedi profi i fod yn heriol. Roeddem yn credu'n wreiddiol fod hyn oherwydd y mynediad cyfyngedig sydd gan ein gweithwyr llaw, sef thua 500 o weithwyr allan o gyfanswm o 570 aelodau staff, i gyfrifiaduron a gliniaduron gwaith. Felly, fe aeth ati i weithio efo'r Swyddog Dysgu a Datblygu Iaith Gymraeg i ddarganfod dulliau eraill o hel y wybodaeth (gweler 4 isod). Mae'r lefel ymateb wedi cynyddu o 25% y flwyddyn ddiwethaf i 39% eleni o ganlyniad i'n hymyriadau. Fodd bynnag, mae'n parhau i fod y gyfradd ymateb isaf o holl adrannau'r Cyngor.</li> </ul>
<p><u>Datblygu cyfleoedd newydd</u></p>	<p><b>4. Oes gennych chi syniadau am ffyrdd newydd y gallem ni fod yn hybu'r Gymraeg o fewn cymunedau'r sir – naill ai yn eich gwasanaethau eich hun neu drwy gydweithio gydag eraill?</b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>Mae'n cael ei esbonio yn 3 uchod fod canfod y canran o staff yr Adran sy'n cyrraedd dynodiadau iaith eu swyddi wedi bod yn heriol. I geisio goresgyn hyn, bu'r Adran yn gweithio'n agos gyda Sion Elwyn Hughes, ac yn ddiweddarach Llio Mai Dafydd, i geisio dod o hyd i ffyrdd amgen o annog a hwyluso'r gweithlu i ymateb i'r asesiad. Ein prif ateb oedd symleiddio'r asesiad ar-lein fel ei fod yn fwy perthnasol i'n gweithwyr llaw a'i ddosbarthu i bob un ohonynt yn unigol ar ffurf holiadur copi caled gyda llythyr gan y Pennaeth yn egluro'r rheswm dros gasglu'r wybodaeth. Fe wnaed hyn a bu'n rhaid i bob gweithiwr lofnodi eu bod wedi ei dderbyn. Y gobaith oedd y byddai'r dull hwn yn llwyddiannus ac yn ein galluogi i ddarganfod faint o'n staff sydd mewn gwirionedd yn cwrdd â gofynion iaith eu swyddi. Fodd bynnag, yn anffodus, nid oedd mor llwyddiannus ag yr oeddem wedi'i obeithio. Roedd y gyfradd ddychwelyd yn parhau i fod yn isel er gwaethaf ymdrechion y rheolwr, yr arweinwyr tîm a'r staff gweinyddol i'w hannog i ymateb dros gyfnod o rhai misoedd.</li> <li>Wrth symud ymlaen, efallai y bydd modd ystyried cynnwys yr holiadur iaith fel rhan o'r broses anwytho ar gyfer staff newydd. Yn ogystal, gallwn geisio casglu'r data drwy'r arweinwyr tîm h.y. eu bod yn cadarnhau os, yn eu tyb nhw, a yw'r gweithiwr yn bodloni dynodiadau iaith ei swydd ai peidio. Gan fod mwyafrif ein gweithwyr llaw bellach wedi trosglwyddo i'r Adran Amgylchedd, byddwn yn gweithio'n agos gyda'u swyddogion i roi gwahanol ddatrysiadau ar waith er mantais i'r ddau ohonom.</li> </ul>

# Eitem 8

CYFARFOD	<b>Pwyllgor Iaith</b>
DYDDIAD	<b>10 Hydref 2022</b>
TEITL	<b>Cynllun Hybu'r Gymraeg: Adran Cyllid</b>
PWRPAS	<b>Cyflwyno gwybodaeth am gyfraniad yr Adran i'r Polisi Iaith</b>
AWDUR	<b>Dewi Morgan, Pennaeth Cyllid</b>

---

## Cefndir

1. Mae'r adroddiad hwn wedi ei pharatoi er mwyn cyflwyno gwybodaeth i'r Pwyllgor Iaith am gyfraniad yr Adran Gyllid i'r Polisi Iaith.
2. Mae Polisi Iaith y Cyngor wedi ei wreiddio yn holl waith yr Adran, a byddwn yn amlygu yn yr adroddiad hwn y cyfleoedd sydd ar gael i wella'r ddarpariaeth i'n trigolion gan gydnabod hefyd yr heriau sy'n wynebu'r maes.

## Iaith Swyddi a Staff yr Adran Gyllid

3. Yn dilyn gwaith diweddar i adolygu gofynion ieithyddol holl swyddi'r Adran, adnabod dynodiadau iaith y swyddi, ac yna i asesu iaith staff yr Adran, gellir adrodd fod 218 o staff yr Adran (sef 96%) bellach wedi cyflwyno hunanasesiad, a 216 o'r rheiny (99.1%) yn cyrraedd dynodiadau iaith eu swyddi.
4. Mae cynnal a chadw'r gallu i gynnig ein gwasanaethau trwy gyfrwng y Gymraeg yn waith parhaus, ac rydym yn ystyried gofynion iaith staff yn ein gwaith bob-dydd, wrth recriwtio a phenodi, anwytho a chynnal sgysiau gwerthuso parhaus. Rydym yn cynnig cefnogaeth i staff ddatblygu eu sgiliau iaith, er mwyn iddynt fedru rhoi'r gwasanaeth gorau i bobl Gwynedd yn Gymraeg a chadw safonau uchel yng nghydestun yr iaith.

## Casgliad

5. Mae gwasanaethau'r Adran Gyllid yn cynhyrchu amrywiaeth o lythyrau, taflenni, ffurflenni, poster, gwefannau a systemau dwyieithog, gyda'r Gymraeg fel iaith diofyn. Mae'r Adran yn anelu i gyflawni safon 'Cymraeg Clir', fel nad yw cwsmeriaid Cymraeg yn teimlo bod ein dogfennau Cymraeg yn rhy anodd i'w deall a'u defnyddio.
6. Gyda rhai agweddau arbenigol o waith Cyllid a Thechnoleg Gwybodaeth, rydym yn brwydro yn erbyn talcen caled i gyrraedd y safon. Fodd bynnag, os rydym yn disgyn yn fyr ar adegau mae hynny oherwydd natur dechnegol y mater sydd o dan sylw, nid oherwydd diffyg uchelgais na diffyg ymdrech gan yr Adran.

## Cwestiynau Aelodau'r Pwyllgor

7. Mae'r tabl canlynol wedi ei baratoi er mwyn cyflwyno ymatebion yr Adran Cyllid i'r cwestiynau a'r materion hoffai'r aelodau'r Pwyllgor iaith eu trafod, gydag enghreifftiau o wasanaethau'r Adran hoffwn eu hamlygu.

### **1. HYBU A HYRWYDDO**

Sut ydym ni'n mynd y tu hwnt i ddarparu yn ddwyieithog i fod yn cynyddu'r cyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg yn y gymuned, i gyfrannu at y targed cenedlaethol o greu miliwn o siaradwyr, ac at y nod Llesiant o sicrhau bod pobl Gwynedd yn "Cael byw mewn cymdeithas naturiol Gymraeg"?

**Cwestiwn 1** - *Allwch chi amlygu unrhyw brosiectau o fewn eich adran sydd yn cyfrannu tuag at un o flaenoriaethau strategaeth iaith y Cyngor, sef Cynllun Hybu'r Gymraeg yng Ngwynedd?*

#### **Ymateb:**

##### Ansawdd Cynnyrch Cyffredinol

Mae gwaith eang gan amrywiol wasanaethau'r Adran Cyllid yn cyfrannu tuag at hybu'r Gymraeg, gyda chyhoeddiadau fel y Datganiad o Gyfrifon y Cyngor, Adroddiad Blynyddol y Gronfa Bensiwn, a ffurflenni Trethi a Budd-dal yn gosod y safon ac yn ddeunydd cyfeirio i gyrff eraill ddilyn ein trywydd.

##### Iaith Microsoft Windows

Mae defnydd byd-eang o gyfrifiaduron drwy gyfrwng y Saesneg gan fusnesau ac unigolion wedi cyflyru defnyddwyr (hyd yn oed yng Ngwynedd) i ymgyswrtu gyda themau Saesneg mewn amrywiol systemau. Er gwaethaf hynny, rydym yn annog ein defnyddwyr i weithio gyda'r gosodiad Cymraeg ar ein cyfrifiaduron.

Mae'r Cyngor yn cyflenwi cyfrifiaduron ar lwyfan "Microsoft Windows" ar gyfer ein swyddogion, gan wasanaethu oddeutu 2,700 o ddefnyddwyr corfforaethol. Derbynnir y cyfrifiaduron hyn â llwyfan weithredu Saesneg, sef y safon diofyn ar gyfer cyfrifiaduron sy'n cael eu cyflenwi yn y DU. Bellach, mae camau mewnol tra'n paratoi'r cyfrifiaduron ar gyfer ein defnyddwyr yn addasu'r gosodiad, gyda phob cyfrifiadur newydd yn cael ei baratoi â llwyfan weithredu yn yr iaith Gymraeg.

Ers adrodd i'r Pwyllgor iaith llynedd, mae'r Cyngor wedi penderfynu mai'r Gymraeg yw gosodiad diofyn ar holl gyfrifiaduron y Cyngor. Er bod rhai gwasanaethau eisoes yn arddangos parodrwydd clir i drosglwyddo i'r Gymraeg, dim ond oddeutu hanner ein defnyddwyr ledled y Cyngor oedd wedi trosglwyddo eu cyfrifiadur yn wirfoddol i'r Gymraeg. Canlyniad hynny oedd penderfyniad i orfodi'r newid.

### Prosiect Dynodiadau Iaith

Fel nodir yn y cyflwyniad uchod, dim ond dau aelod o staff yr Adran Gyllid sydd ddim yn cyrraedd gofynion iaith eu swyddi. Mae'r swyddogion hyn ar lefel sylfaen, ac mae cyfleoedd pellach iddynt ddatblygu eu hyfforddiant pe baent yn dymuno. Rydym yn hyderus bydd modd adrodd ar gynnydd yn fuan.

### Datblygu'r Gymraeg

Ers yr adroddiad diwethaf yn Hydref 2021, mae Cymhorthydd Refeniw Treth Cyngor (sef un o'r swyddogion a gyfeirir atynt uchod) wedi mynychu cwrs Gloywi iaith gyda Dysgu Cymraeg, a oedd yn benodol i staff Cyngor Gwynedd, a hynny rhwng Mai a Mehefin 2022. Gan ei bod wedi datblygu i lefel sylfaen erbyn hyn, mae gweithio i'r Cyngor wedi ei helpu i ddysgu a datblygu ei hun fel unigolyn a magu hyder i ddefnyddio'r Gymraeg yn y gweithle.

### Cynllun Cyfeillion

Mae'r Cynllun Cyfeillion wedi'i sefydlu i gefnogi un o amcanion y prosiect hwn, sef helpu staff y Cyngor i gyrraedd dynodiadau iaith eu swyddi.

Diben y cynllun yw rhoi cyfle i staff ar ganol derbyn hyfforddiant, neu newydd orffen, i ddefnyddio'r Gymraeg yn anffurfiol a gofyn am help mewn sefyllfa gyfforddus.

Ar hyn o bryd mae 1 aelod o staff Cyllid yn rhan o'r Cynllun. Yr enghraifft yma yw dysgwr sy'n gweithio yn y Gwasanaeth Trethi. Mae hi wedi ymuno gyda'r Cynllun Cyfeillion, ac wedi cael ei phartneru ag Uwch Gymhorthydd Cyfrifeg. Mae'r Cynllun hwn yn galluogi i'r swyddog gynnal sgysiau yn y Gymraeg gyda chyd-weithiwr a hefyd bod yn ymwybodol bod ganddi "glust i wrando arni". Ymddangos bod y trefniant hwn yn gweithio'n effeithiol iawn.

### Gwersi Cymraeg

Yn ystod Ionawr 2022 bu i Hyfforddai Proffesiynol yn yr Adran gwblhau hyfforddiant "Cymraeg Gwaith", sef wythnos o gwrs ar-lein trwy law Nant Gwrtheyrn. Trefnwyd yr hyfforddiant yma ar y cyd rhwng y Swyddog Dysgu a Datblygu'r Iaith Gymraeg a Chanolfan Nant Gwrtheyrn.

### Casglu Asesiadau

Ar hyn o bryd mae 11 aelod o staff heb gyflwyno eu hunanasesiad. Mae'r mwyafrif o'r staff sy'n weddill yn aelodau newydd o staff, ac mae gwaith yn parhau i gasglu'r asesiadau.



### Fforwm Dynodiadau Iaith

Pwrpas y Fforwm yma yw rhannu gwybodaeth, arferion da, dysgu gan eraill, delio â rhwystrau a chyfleoedd sy'n codi yng nghyd-destun y dynodiadau iaith ar draws y sefydliad.

Mae'r cyfarfodydd yma yn digwydd yn chwarterol dros Teams. Os oes unrhyw fater, cwestiwn neu sylw angen ei godi yn y fforwm, yna bydd cynrychiolydd yr Adran yn gofalu am hyn.

Mae trefniant mewn lle bod pob gwybodaeth y bydd Swyddog Dysgu a Datblygu'r Iaith Gymraeg yn ei rannu â chynrychiolydd yr Adran yn cael ei raeadru i bob aelod o staff yr Adran Gyllid.

### Mewnrwyd yr Adran Gyllid

Mae trefniadau mewn lle gennym i ddiweddarau ac i drawsnewid mewnrwyd yr Adran Gyllid. Mae'r gwaith yma yn cael ei gyd-gordio gan Arweinydd Technegol (TG) a'i Dim. Bydd y fewnrwyd yn bodoli yn y Gymraeg yn unig.

### Gwobr Dafydd Orwig

Mae un aelod o staff Cyllid wedi derbyn gwobr Dafydd Orwig am hyrwyddo a hybu'r iaith Gymraeg yn y gweithle. Bu iddi dderbyn y wobr yma tra yn gweithio mewn adran arall yn y Cyngor. Gobeithio y gall ddefnyddio ei phrofiadau/ymarfer da yn ei rôl newydd yn Cyllid.

## 2. ALLANOLI GWAITH A GOSOD CYTUNDEBAU TRYDYDD PARTI

Sut ydym ni'n sicrhau bod safon y gwasanaeth dwyieithog yn cael ei gynnal wrth allanoli a gosod cytundebau?

**Cwestiwn 2** - *Os yw'r adran yn gosod gwaith yn allanol ar gytundeb, allwch chi gyfeirio at unrhyw arfer da, naill ai wrth osod amodau neu wrth fonitro i sicrhau cydymffurfiaeth efo amodau ieithyddol?*

### Ymateb:

#### Cyflenwyr Allanol

Wrth i'r Adran Gyllid osod gwaith yn allanol ar gytundeb, rydym yn sicrhau fod gwasanaeth yn y Gymraeg yn cael ei gynnig i bobl o fewn cymunedau'r sir, er enghraifft y gwasanaeth i gwsmeriaid ym Manc Barclays a'r Swyddfa Bost.

Fodd bynnag, dylid nodi siom yr Adran fod Barclays wedi cau canghennau o fewn Gwynedd ers i'r Adran Gyllid gyflwyno adroddiad i'r Pwyllgor Iaith yn 2021. Mae canghennau Caernarfon a Porthmadog eisoes wedi cau yn gynnar yn 2022, ac mae cangen Dolgellau ar fin cau hefyd.

Nid yw hyn o hyd yn bosib cynnal perthynas gwbl ddwyieithog gyda rhai gwasanaethau arbenigol a thechnegol, oherwydd natur arbenigol y farchnad. Fodd bynnag, mae staff bob amser yn ymdrechu i weithredu yn fewnol trwy'r Gymraeg lle bynnag mae hynny'n bosib. Lle mae unrhyw wybodaeth yn cael ei gynhyrchu'n gyhoeddus rydym yn sicrhau ei fod yn ddwyieithog o'r cychwyn.

Er enghraifft, yn ddiweddar roedd gwaith gyda chyflenwr allanol i gynorthwyo'r adran i ddsbarthu arian Cynllun Cymorth Costau Byw. Trwy weithio'n agos gyda swyddogion y Cyngor roedd modd sicrhau fod yr holl ohebiaeth a anfonwyd i drigolion Gwynedd ar gyfer y cynllun yn gwbl ddwyieithog.

#### Cydweithio ar draws Cymru

Mewn ambell sefyllfa, e.e. Partneriaeth Pensiwn Cymru, dewiswyd cydweithio yn genedlaethol, yn hytrach na gosod gwaith ar gytundeb i gwmni allanol. Mae cytundeb rhyng-awdurdod yr 8 cronfa bensiwn Cymreig yn sicrhau fod adroddiadau i gydbwyllgor llywodraethu'r bartneriaeth yn adlewyrchu safonau dwyieithog Gwynedd, ac yn sicrhau llwyfan gyfartal i'r iaith tu hwnt i ffiniau'r sir.

Bu sefyllfa debyg gyda'r system gyfrifiadurol WCCIS (system gwasanaethau gofal) ar gyfer cefnogi achosion gofal o bob math, sydd wedi'i ddarparu'n genedlaethol gan ddarparwr allanol. Mae mewnbwn sylweddol datblygwyr Technoleg Gwybodaeth Cyngor Gwynedd wedi galluogi'r system i ddarparu cymaint ag sydd bosib yn ddwyieithog.

Hefyd, mae gan Gyngor Gwynedd gynrychiolydd ar Fwrdd Technoleg Cymraeg Llywodraeth Cymru, sy'n cynghori'r Gweinidog ar gyfer sefydlu "Cynllun Gweithredu Technoleg Cymraeg", ac yn rhan o strategaeth Llywodraeth Cymru Cymraeg 2050. Mae'r cynllun gweithredu bellach wedi ei gyhoeddi, gyda chynrychiolaeth o'r Cyngor yn parhau i gynorthwyo'r Llywodraeth ar y materion hyn.

### 3. GWEITHREDU’N DDWYIEITHOG

Sut ydym ni’n llwyddo wrth weithredu ar ofynion y Polisi Iaith a Safonau’r Gymraeg?

**Cwestiwn 3** - *Oes yna unrhyw rwystrau i’ch gallu fel adran i gynnig gwasanaeth llawn yn y Gymraeg?*

#### **Ymateb:**

##### Cyfieithu Rhithiol

Adroddwyd i’r Pwyllgor yn Hydref 2021 newid pellgyrhaeddol ar gyfer cynnal cyfarfodydd wedi ei gyflwyno’n gyflym ddiwedd mis Mawrth 2020. Nid oedd yn bosib cynnal cyfarfodydd wyneb yn wyneb, ac felly fe drowyd at gynnal cyfarfodydd rhithiol. Gwneir defnydd helaeth o *Microsoft Teams* erbyn hyn, a hwnnw’n gweithio’n gwbl ddi-fai yn uniaith Gymraeg ar gyfer cyfarfodydd mewnol y Cyngor.

Fodd bynnag, wrth i gyfarfodydd allanol, democrataidd a rhyngasiantaethol gael eu hail-sefydlu, daeth yr angen i ddarparu cyfieithu ar y pryd. Erbyn hyn, *Microsoft Teams* oedd y ddarpariaeth safonol yn y Cyngor, ac yn wir yn brysur ddal ei blwyf ar draws Cymru, ond yn anffodus, nid oedd darpariaeth ar gyfer cyfieithu ar y pryd yn rhan o’r pecyn.

Trwy gydweithrediad rhwng y gwasanaethau cyfieithu, democrataidd a thechnoleg gwybodaeth, cyflwynwyd darpariaeth cyfieithu ar y pryd drwy lwyfan *Zoom*, bu iddo brofi’n wydn, dibynadwy, hawdd ei ddefnyddio ac yn effeithiol iawn. Mae’r llwyfan yma’n parhau’n weithredol ar gyfer unrhyw gyfarfod sydd angen darpariaeth cyfieithu ar y pryd.

Mae cyfarfodydd democrataidd y Cyngor yn parhau’n rhithiol neu’n hybrid, ac mae ein defnydd o *Zoom* a’r ddarpariaeth cyfieithu ar y pryd yn ein galluogi i ni ddarlledu rhaglen lawn o gyfarfodydd y Cyngor yn fyw ar ein gwefan.

#### 4. DATBLYGU CYFLEOEDD NEWYDD

*Cwestiwn 4 - Oes gennych chi syniadau am ffyrdd newydd y gallem ni fod yn hybu'r Gymraeg o fewn cymunedau'r sir – naill ai yn eich gwasanaethau eich hun neu drwy gydweithio gydag eraill?*

Ymateb:

##### Darpariaeth cyfrifiaduron i Ysgolion Gwynedd

Fe sefydlwyd y Gwasanaeth Dysgu Digidol i ddarparu arweinyddiaeth a chefnogaeth ddigidol i ysgolion y Sir ar gychwyn Ebrill a'r gwaith o gyflwyno Strategaeth Ddigidol Ysgolion Gwynedd ar waith.

Mae gliniadur bellach wedi ei gyflwyno i bob athro, a'r gwaith o gyflwyno gliniadur i bob disgybl uwchradd (BI 7 -11) ar waith, gydag iaith diofyn pob gliniadur yn cael ei gyflwyno yn y Gymraeg. Mae gwasanaeth wedi ymrwmo i adolygu a gwirio gosodiadau ar ddyfeisiadau hanesyddol yr ysgolion fel bod oll o'r cyfarpar a ddefnyddir wedi eu ffurfweddu i gyflwyno'r Gymraeg fel yr iaith diofyn.

Y dyfodol

Dros y flwyddyn nesaf bydd yr Adran Gyllid yn:

Cynnal trafodaethau cychwynnol ynglŷn ag anelu at weithio tuag at gael achrediad "Buddsoddwyr Mewn Pobl", a bydd yr elfen gwaith sy'n ymwneud ar iaith Gymraeg yn rhan sylweddol o'r dasg yma.

Dros y misoedd diwethaf rydym fel Adran wedi dechrau gweithio'n agos â'r Swyddog Dysgu a Datblygu Iaith Gymraeg o'r Gwasanaeth Dysgu a Datblygu. Byddwn yn parhau i gryfhau'r cydweithio yma dros y flwyddyn nesaf.

# Eitem 9

<b>CYFARFOD</b>	Pwyllgor Iaith
<b>DYDDIAD</b>	10 Hydref 2022
<b>TEITL</b>	Trosolwg o'r Prosiect Dynodiadau Iaith
<b>PWRPAS</b>	Cyflwyno crynodeb o waith y prosiect hyd yma a'r camau nesaf.
<b>AWDUR</b>	Llio Mai Dafydd

## 1 Pwrpas

- 1.1 Pwrpas yr adroddiad hwn yw rhoi cefndir y prosiect Dynodiadau Iaith a chrynodeb o'r gwaith sydd wedi digwydd hyd yma. Yn ogystal, bydd gwybodaeth am y gwaith sydd ar y gweill a'r camau nesaf. Gwneir hyn er mwyn sicrhau bod holl aelodau'r Pwyllgor Iaith yn ymwybodol o waith y prosiect.

## 2 Cefndir

- 2.1 Yn 2015 penderfynodd y Pwyllgor Iaith edrych ar y drefn o gofnodi sgiliau iaith staff, mewn paratoad ar gyfer dyfodiad y Safonau Iaith yn 2016 ac mewn ymdrech i gael gwell dealltwriaeth o union lefel sgiliau staff, yn hytrach na dim ond gallu neu beidio i siarad Cymraeg.
- 2.2 Ym mis Ionawr 2016 gwnaethpwyd penderfyniad bod angen yn gyntaf adolygu gofynion ac amodau iaith swyddi'r Cyngor er mwyn gosod gofynion realistig ochr-yn-ochr â dyletswyddau'r swydd. Er enghraifft:
- **Athro/Athrawes:** Cadwyd y gofynion ar y lefel uchaf oherwydd natur y swydd.
  - **Cymhorthydd Hamdden:** Cadwyd y gofynion siarad a gwrando yn uchel er mwyn adlewyrchu pwysigrwydd sgiliau llafar yn y swydd ond gostyngwyd y gofynion ysgrifennu gan nad oes angen i gymhorthydd hamdden ysgrifennu adroddiadau, cofnodion ac ati.
- 2.3 Yn 2017 dechreuwyd ail ran y prosiect, sef cofnodi sgiliau iaith staff a sicrhau bod cefnogaeth ar gael i aelodau cyfredol o staff naill ai gadw safon eu sgiliau Cymraeg neu gyrraedd gofynion iaith eu swydd os oedd bwch yn bodoli.
- 2.4 Dechreuwyd trwy redeg peilot gydag adran Ymgynghoriaeth Gwynedd yn niwedd 2017. Roedd hyn yn rhannol oherwydd anghenion yr Adran, a hefyd oherwydd eu hawydd i gydweithio. Un o'r gwersi pwysicaf a ddysgwyd o'r peilot yw pwysigrwydd cyfarfod Penaethiaid a Rheolwyr, a'u cynnwys yn y broses o'r dechrau un. Yn ogystal â hynny, roedd bod yr adran a'r rheolwyr yn cymryd perchnogaeth o'r gwaith yn hanfodol bwysig i lwyddiant y prosiect.
- 2.5 Sefydlwyd Bwrdd Prosiect i gadw golwg ar y gwaith. Gan fod y prosiect yn galw am edrych ar swyddi (asesu anghenion a'r broses recriwtio), pobl (penodi ac asesu sgiliau) a hyfforddiant, penderfynwyd y byddai'r Bwrdd Prosiect yn cynnwys cynrychiolwyr o wahanol wasanaethau a fyddai'n cyfrannu at yr elfennau hyn, e.e. y gwasanaeth Adnoddau Dynol a'r gwasanaeth Cefnogol.

### 3 Trosolwg o waith y prosiect

- 3.1 O ddiwedd 2018 ymlaen, dechreuwyd ar weithredu'r prosiect gyda phrif adrannau eraill y Cyngor. Gwnaed hyn trwy gysylltu gyda Phenathiaid a Rheolwyr.
- 3.2 Yn ogystal â phrif adrannau'r Cyngor, mae gwaith hefyd wedi'i wneud i gasglu asesiadau iaith ac i ddatblygu sgiliau iaith staff Byw'n Iach. Er nad oes ymdrech penodol wedi'i wneud i weithredu'r prosiect gyda'r sefydliadau sy'n cael eu lletya gan Gyngor Gwynedd, e.e. Asiant Cefnffyrdd Gogledd a Chanolbarth Cymru, Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru a GwE, mae modd iddynt hwythau gwblhau'r holiadur hunanasesu iaith, ac mae cefnogaeth ar gael iddynt ar gais. Mae gwaith hefyd wedi digwydd i gasglu asesiadau iaith gan staff Ysgolion, fydd yn derbyn sylw pellach yn sgil Cynllun Strategol y Gymraeg Mewn Addysg.
- 3.3. Er mwyn hwyluso'r gwaith o gasglu gwybodaeth am sgiliau iaith staff, datblygwyd yr holiadur hunanasesu iaith a dechreuwyd ei ddefnyddio o 2019 ymlaen. Mae'r holiadur yn gofyn i unigolyn sgorio ei allu i wneud amrywiaeth o dasgau trwy gyfrwng y Gymraeg. Yn seiliedig ar yr atebion, mae'r holiadur yn darparu lefel iaith ar y diwedd. Mae hefyd yn gyfle i staff nodi eu hyder wrth ddefnyddio'r Gymraeg, i nodi a oes unrhyw beth y gall y Cyngor ei wneud i'w cynorthwyo i ddefnyddio mwy o Gymraeg yn eu gwaith, ac yn rhoi'r cyfle iddynt nodi unrhyw angen am hyfforddiant.  
  
Mae'r holiadur wedi'i leoli ar system Hunanwasanaeth y Cyngor, ac mae fersiwn ar safle allanol ar gael i'r rhai sydd heb fynediad at y system Hunanwasanaeth.  
  
Cydnabyddir ei bod yn her sicrhau bod rhai carfannau o staff rheng flaen yn cwblhau'r holiadur hunanasesu iaith. Er mwyn cael syniad o'u sgiliau iaith, gofynnir i reolwyr nodi a yw'r aelodau o staff yn cyrraedd dynodiadau iaith y swydd ai peidio.
- 3.4 Mae pob math o gefnogaeth, gan gynnwys cyrsiau gloywi mewnol, cyrsiau dysgu allanol, cyrsiau dwys, cyrsiau ar-lein ac apiau a gwefannau, yn cael ei gynnig yn barhaus i staff wella neu gynnal eu sgiliau Cymraeg.
- 3.5 Er mwyn cynnig ôl-ofal i dderbynwyr hyfforddiant, a chefnogi siaradwyr dihyder neu sydd eisiau gwella'u Cymraeg trwy ddull gwahanol i ystafell ddosbarth, sefydlwyd y **Cynllun Cyfeillion Cymraeg** ym mis Mawrth 2019. Mae'r Cynllun hwn ynparu aelod o staff hyderus eu Cymraeg gydag aelod o staff sydd eisiau datblygu eu sgiliau iaith.
- 3.6 Ynghyd â staff o'r gwasanaeth Technoleg Gwybodaeth, datblygwyd system er mwyn cadw'r wybodaeth am sgiliau iaith staff. Mae'r system hon yn rhoi'r gallu i greu adroddiadau amrywiol e.e. Adroddiad o unigolion sydd heb asesiad iaith, adroddiad ar gyfer un gwasanaeth yn unig.

- 3.7 Sefydlwyd proses i sicrhau bod adrannau'n derbyn gwybodaeth gyson am lefelau iaith eu staff, y nifer sydd ddim yn cyrraedd dynodiadau iaith eu swyddi a'r nifer sydd wedi neu yn mynychu hyfforddiant iaith. Mae Penaethiaid bellach yn derbyn adroddiad pob 3 neu 6 mis.

Bydd hyn hefyd yn fodd o sicrhau parhad y gwaith ar ôl i'r prosiect ddod i ben.

- 3.8 Datblygwyd y Safle Iaith fewnol fel man canolog i rannu gwybodaeth am hyfforddiant iaith, am adnoddau defnyddiol ac am y prosiect ei hun, gan gynnwys cwestiynau cyffredin a gwybodaeth ddefnyddiol i reolwyr.
- 3.9 Sefydlwyd Fforwm Dynodiadau Iaith sy'n cynnwys cynrychiolydd o bob un o brif adrannau'r Cyngor. Mae'r Fforwm yn cyfarfod pob 3 mis ac yn cynnig y cyfle i drafod unrhyw heriau sydd wedi codi o ran y Gymraeg, i rannu arfer dda ac i rannu gwybodaeth am gyfleoedd newydd i ddatblygu sgiliau iaith.
- 3.10 Dyma nodi data diweddaraf y prosiect ar gyfer prif adrannau'r Cyngor (*yn gywir ar 23 Medi 2022 ac yn eithrio Ysgolion*):

Cyfanswm staff prif adrannau'r Cyngor: **3,936**

Nifer y staff sydd wedi cwblhau'r hunanasesiad iaith: **2,717 (69%)**

Nifer y staff sydd wedi derbyn rhyw fath o asesiad iaith: **2,945 (75%)**

Nifer y staff sydd ar ôl heb asesiad iaith: **991 (25%)**

Nifer y staff sy'n cyrraedd dynodiadau iaith eu swyddi: **2,687 (91%)**

Nifer y staff sydd ddim yn cyrraedd dynodiadau iaith eu swyddi: **258 (9%)**

Nifer y staff sy'n uwch na dynodiadau iaith eu swyddi: **1,969 (72%)**

Ers dechrau'r prosiect yn 2017 mae dros **200** o aelodau o staff wedi mynychu hyfforddiant iaith, naill ai i ddysgu Cymraeg neu i ddatblygu eu sgiliau ymhellach.

O'r 258 sydd ddim yn cyrraedd dynodiadau iaith eu swyddi, mae **47** wedi derbyn hyfforddiant iaith hyd yma.

## 4 Camau nesaf

- 4.1 Yn ystod cyfarfod Monitro Perfformiad yr adran Cefnogaeth Gorfforaethol fis Mehefin 2022, penderfynwyd fod y prosiect ffurfiol yn dod i'w derbyn a'i fod yn trosglwyddo i fod yn rhan o waith dydd i ddydd, ond nid yw hynny'n golygu y bydd y gwaith o asesu a chefnogi yn dod i ben.
- 4.2 Bydd y drefn o gasglu gwybodaeth am sgiliau iaith staff yn parhau, serch hynny, yn ogystal â'r gwaith o gynnig cefnogaeth i ddatblygu sgiliau iaith staff.
- 4.3 Bydd cyfarfodydd yn cael eu trefnu gyda Phenaethiaid er mwyn cau'r prosiect yn swyddogol, i'w diweddarau ynghylch y datblygiadau diweddaraf a'u hatgoffa o'u cyfrifoldebau a'r gefnogaeth sydd ar gael i staff.
- 4.4 Gan fod y drefn asesu wedi ei sefydlu, bydd y ffocws nawr yn symud i edrych ar y gefnogaeth a'r hyfforddiant sydd yn cael ei gynnig i ddatblygu sgiliau iaith y gweithlu. Bydd angen blaenoriaethu gwasanaethau rheng flaen i gysylltu â nhw ynghylch hyfforddiant iaith a bydd sylw penodol yn cael ei roi i'r aelodau o staff nad ydyn nhw'n cyrraedd dynodiadau iaith eu swyddi ar hyn o bryd.



Gall hyn olygu comisiynu cyrsiau penodol i aelodau o staff y Cyngor.

- 4.5 Bydd cydweithio gyda'r adran Addysg er mwyn casglu asesiadau iaith gan staff Ysgolion fel rhan o waith Cynllun Strategol y Gymraeg Mewn Addysg, sy'n weithredol o Fedi 2022.
- 4.6 Bydd angen sicrhau bod trefniadau monitro digonol yn eu lle, a bod yr adrannau unigol yn deall eu cyfrifoldebau er mwyn sicrhau parhad y prosiect.

Bydd y Fforwm Dynodiadau Iaith yn parhau i gyfarfod er mwyn sicrhau hyn a bwriedir edrych ar ffyrdd ychwanegol o gefnogi timau i gynnal y Gymraeg fel iaith weithredol ac i gymathu dysgwyr.

## **5 Yr hyn a geisir gan y Pwyllgor Iaith**

- 5.1 Croesewir sylwadau neu gwestiynau gan y Pwyllgor Iaith ar waith y prosiect yn ogystal ag argymhellion ac awgrymiadau ar gyfer y camau nesaf.